Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Annwyl Syr / Fadam,

Atodir agenda a dogfennau eraill isod ar gyfer cyfarfod o'r **PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**.

Yr eiddoch yn gywir,

Gary Williams
**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

---

Dear Sir / Madam,

An agenda and other documents for a meeting of the **NORTH WALES POLICE AND CRIME PANEL** are attached below.

Yours faithfully,

Gary Williams
**Head of Legal and Democratic Services**

**AGENDA**

**1 PECYN AGENDA**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Llun, 23 Ionawr 2017 at 2.00 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

3. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol.

4. **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 7)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

5. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

6. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:**

   a) Praesept a Threth y Cyngor 2017/18 (Tudalennau 8 - 24)

   b) Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru: Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2017-18 hyd 2021-22 (Tudalennau 25 - 51)

7. **Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal:**

   a) Cymdeithas Genedlaethol Paneli yr Heddlu a Throsedd (Tudalennau 52 - 54)

   b) Cynllun Lwfans (Tudalennau 55 - 57)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**8.** **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Dydd Mawrth, 31 Ionawr 2017 @ 2.00 pm

Dydd Llun, 13 Mawrth 2017 @ 2.00 pm

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Brian Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Glenys Diskin | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Philip C. Evans Y.H. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng David Griffiths | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng William T. Hughes | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Bernie McCann | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Dilwyn Morgan | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Neville Phillips OBE Y.H. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |

| | |
|---|---|
| Pat Astbury (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Matthew Forbes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| William John Williams | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 12 Rhagfyr 2016, am 2.00 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Cynghorydd Julie Fallon (Cadeirydd) |
| | Y Cynghorwyr: Brian Blakeley, Glenys Diskin, Philip C. Evans Y.H., David Griffiths, Bernie McCann, Dilwyn Morgan, a Neville Phillips |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig | Pat Astbury, y Capten Matthew Forbes a John Williams |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr) |
| Hefyd yn bresennol: | Ann Griffith (Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd), Arfon Jones (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) a Rhian Rees Roberts (Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd) |

35. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Wil Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Y Cynghorydd Gethin Williams (Cyngor Gwynedd) a Stephen Hughes (Prif Weithredwr, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd)

36. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon gysylltiad personol, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

37. **MATERION BRYS**

Dim.

38. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2016 i'w cymeradwyo.

Cofnod 27 - Cyflwyniad gan y Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru: Estynnodd y Cynghorydd Brian Blakeley (Cyngor Sir Ddinbych) ei ddiolch i'r Prif Gwnstabl ac i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) am yr ymatebion a gafodd i'r pryderon a gododd yn y cyfarfod diwethaf, mewn perthynas â phlismona yn y Rhyl.

Nodwyd y byddai'r PCC a'r Prif Gwnstabl yn mynychu cyfarfod Craffu yng Nghyngor Sir Ddinbych ym mis Ionawr 2017.

**PENDERFYNWYD-**

**Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2016 i'w cymeradwyo.**

39. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd John Williams, yr Aelod Annibynnol Cyfetholedig sydd newydd ei benodi i'r cyfarfod.

40. **DIWEDDARIAD CYFNODOL GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Rhoddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCC) ddiweddariad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCP) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2016 a dechrau Tachwedd 2016.

Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad Llu Heddlu Gogledd Cymru yn erbyn mesurau Cynllun Heddlu a Throsedd 2016/17.

Yn ychwanegol at yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad, rhoddodd y PCC y diweddariad canlynol:

- Cyfreithloni Canabis:
  - Rhoddodd y PCC wybod i'r PCP bod ei alwad ar gyfer cyfreithloni canabis wedi derbyn sylw sylweddol yn y cyfryngau a bod gan y BBC (Week In Week Out) ddiddordeb mewn recordio rhaglen ar y mater hwn.
  - Roedd y PCC hefyd wedi galw am gyflwyno Ystafelloedd Dos Heroin ac Ystafelloedd Triniaeth Heroin yn Wrecsam.
- Plismona Gemau Pêl-droed:
  - Adroddodd y PCC ei fod i fod i gyfarfod gyda chyfreithwyr y Ffederasiwn Cefnogwyr Pêl-droed ynglŷn â phlismona gemau pêl-droed, gan y teimlai'r PCC bod gemau o'r fath yn cael eu plismona yn annheg o'i gymharu â digwyddiadau chwaraeon eraill. Teimlai'r PCC, ar rai achlysuron bod lluoedd heddlu yn camddefnyddio eu pwerau i stopio cefnogwyr rhag mynychu gemau pêl-droed; mae pwerau plismona ychwanegol wedi cael eu cyflwyno yn dilyn trychineb Hillsborough.
  - Cyfeiriodd y PCC at ddigwyddiad diweddar yn ymwneud â chefnogwyr Tranmere y gwrthodwyd mynediad iddynt i gêm bêl-droed ar gae Wrecsam.
- Gwerth Cymdeithasol:
  - Byddai Strategaeth Gaffael yn cael ei datblygu yn y flwyddyn newydd i sicrhau bod caffael gwasanaethau er budd yr economi leol a hefyd yn darparu'r gwerth gorau am arian.
- Adolygiad Craffu:
  - Rhoddodd y PCC wybod y byddai'n cyflwyno adroddiad i'r PCP ym mis Ionawr 2017 ar yr adolygiad craffu sy'n cael ei gynnal i

edrych ar gynlluniau ymgysylltu yr Heddlu ar gyfer siroedd Gogledd Cymru.

Wrth graffu ar wybodaeth ddiweddaraf y PCC, codwyd y materion canlynol:

Plismona Gemau Pêl-droed:

- Cadarnhaodd y PCC ei fod yn codi pryderon yn ei rôl fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, yn hytrach na rhan berchennog Clwb Pêl-droed a Stadiwm Wrecsam a bod diogelu hawliau sifil a dynol yn flaenoriaeth yn ei faniffesto.
- Er bod plismona gemau pêl-droed yn fater gweithredol, gobeithiodd y PCC y gallai ddylanwadu a gwneud sylwadau priodol i sicrhau plismona priodol a chymesur mewn gemau.

Ceisiodd y Cadeirydd gael eglurhad mewn perthynas â chynigion y PCC ar gyfer plismona mewn gemau pêl-droed a'r awgrym posibl y gallai hyn gael ei gynnwys o fewn Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, oherwydd bod y PCC yn rhan berchennog o Glwb Pêl-droed Wrecsam, a oedd yn ymddangos yn ffocws y pryderon yr oedd y PCC wedi'u codi.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y PCC ei fod yn edrych ar blismona yn gyffredinol mewn gemau pêl-droed a'i fod eisiau plismona tecach i holl gefnogwyr pêl-droed. Dywedodd y PCC hefyd y byddai ond yn cael ei gynnwys o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd os oedd yn fater a ddaeth allan o'r digwyddiadau ymgynghori sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd.

Sut fyddai cyfreithloni cyffuriau yn cael ei weithredu a phwy fyddai'n gyfrifol am yr Ystafelloedd Dos Heroin?

- Mewn ymateb, eglurodd y PCC y byddai'r Heddlu yn dal i orfodi deddfau cyffuriau i gyfyngu ar gyflenwi cyffuriau.
- Adroddodd y PCC fod nifer uchel o bobl sy'n gaeth i gyffuriau presgripsiwn, fel diamorffin, sy'n cynnwys heroin. Cadarnhaodd y PCC mai'r alwad oedd i gyfreithloni'r cyffur canabis at ddibenion meddyginiaethol.
- Mynegwyd pryder gan y PCP, trwy gyfreithloni cyffuriau, y gallai hyn yn ei dro gynyddu nifer y defnyddwyr a chryfder cyffuriau a gyflenwyd yn anghyfreithlon.
- Teimlai'r PCC y byddai cyflwyno Ystafelloedd Dos Heroin yn lleihau achosion o HIV a Hepatitis C.
- Drwy reoleiddio cyflenwi cyffuriau, y gobaith oedd y byddai troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn lleihau, yn enwedig aildroseddu. Ond, nid yw cyfreithloni cyffuriau yn ateb pob problem ar gyfer yr holl droseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.
- Eglurodd y PCC, i ddechrau, y byddai'n trafod ei gynlluniau gyda'r rhai sy'n gaeth i gyffuriau ac yna gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru, a fyddai'n rhanddeiliad, oherwydd bod caethiwed yn fater iechyd y cyhoedd, nid mater troseddol.
- Er bod y PCC yn teimlo bod y rhyfel yn erbyn cyffuriau caled wedi'i golli, awgrymodd ymchwil bod y rhai sy'n defnyddio cyffuriau wedi

gostwng mewn gwirionedd. Mewn ymateb, rhoddodd y PCC wybod bod gwir nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau wedi cynyddu dros 50% yn y flwyddyn ddiwethaf; gallai cyfreithloni cyffuriau amddiffyn bywydau.

Holodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd) a ddylai'r PCP gefnogi'r PCC yn ffurfiol i gynnal trafodaethau i gyfreithloni cyffuriau, a fyddai wedyn yn sicrhau bod y PCP yn cael ei gynnwys fel rhan o'r trafodaethau hynny.

Teimlai'r PCP, drwy gefnogi trafodaethau o'r fath, bod y PCP mewn perygl o gael eu camddehongli a'u gweld fel eiriolwr ar gyfer cyfreithloni cyffuriau, ac nid dyma'r achos.
Roedd gormod o gwestiynau heb eu hateb a thrwy gefnogi trafodaethau, byddai'n anfon y neges anghywir i'r cyhoedd, yn enwedig i blant a phobl ifanc.

Byddai'r PCP yn cael y cyfle i graffu ar y PCC, os oedd yn un o'r blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

<u>Plismona yn y Gymuned:</u>

- Codwyd materion yn ymwneud â'r rhif 101 a'r anallu i gysylltu â Rheolwyr Rhawd Cymunedol a PCSOs unwaith eto.
- Cydnabu'r PCC y pryderon a godwyd ac ailadroddodd y byddai'n rhannu cynlluniau ymgysylltu'r Heddlu gyda'r PCP ac y byddai canfyddiadau'r adolygiad craffu yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.
- Diolchwyd i'r Dirprwy PCC am gymryd rhan mewn 'ffug dreial' arbennig yn ddiweddar yn Ysgol Stryd y Rhos yn Rhuthun a diolchwyd hefyd i Dîm Plismona Sir Ddinbych am eu cyfranogiad yn y digwyddiad.
- Yr angen am roi cyhoeddusrwydd i straeon newyddion da.

<u>Amcan 2 yr Heddlu a Throsedd: Atal Trosedd:</u>

- O ran yr amcan hwn, roedd nifer o fesurau a ddefnyddiodd y PCC i'w gynorthwyo i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif. Gofynnwyd am gael cynnwys yr ystadegau a ddefnyddiwyd i fesur perfformiad yn y diweddariad cyfnodol, ynghyd â ffigurau meincnodi yn erbyn Heddluoedd eraill a ffigurau cymharol blwyddyn ar flwyddyn; cyfeiriwyd yn benodol at lefelau byrgleriaeth domestig ac ymosodiadau.
- Awgrymwyd, oherwydd newid yn y PCC a Chadeirydd y PCP, y dylid adolygu'r wybodaeth sydd ei hangen yn y diweddariad cyfnodol i sicrhau bod yr wybodaeth berthnasol yn cael ei darparu.
- Er ei bod yn braf gweld y nifer o achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) wedi gostwng ers diwedd cyfnod yr haf ac yn lefelu, yn gyson â rhai'r amser cyfatebol y llynedd, yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn bu cynnydd o tua 1000 o ddigwyddiadau. Teimlai'r PCP y byddai'n ddefnyddiol cael gwybod achosion y cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a lefelau aildroseddu.

Hefyd rhoddodd y Dirprwy PCC ddiweddariad ar y nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau yr oedd wedi'u mynychu ers cyhoeddi'r diweddariad cyfnodol.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi diweddariadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.**

**(b) Bod ystadegau a ddefnyddir i fesur perfformiad yn cael eu cynnwys o fewn diweddariad cyfnodol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, ynghyd â ffigurau meincnodi yn erbyn Heddluoedd eraill a ffigurau blwyddyn cymharol.**

**(c) Bod achosion y cynnydd mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a lefelau aildroseddu yn cael ei ddarparu i Banel Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru.**

*(Nid oedd yr eitem ganlynol wedi ei chynnwys ar y rhaglen, ond fe'i hystyriwyd fel mater brys, gyda chydsyniad y Cadeirydd).*

41. **PLANT A PHOBL IFANC YN GYNTAF – FFRAMWAITH CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC DRAFFT 2017**

Dosbarthodd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd (CSP) y Fframwaith Craffu Plant a Phobl Ifanc Drafft 2017 i Banel yr Heddlu a Throsedd (PCP).

Roedd anghenion, hawliau a lles pob plentyn a pherson ifanc yn hollbwysig o fewn y byd plismona. Roedd yr hawliau hyn wedi'u nodi'n glir o fewn egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Hawliau Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru (Cymru) 2011.

Wrth sefydlu'r Fframwaith Craffu, roedd y PCC yn ymgymryd â gwarchod hawliau'r Confensiwn a byddai Heddlu Gogledd Cymru yn ymdrechu i amddiffyn plant rhag niwed, cefnogi dioddefwyr a thystion ifanc ac yn anelu at leihau erledigaeth ailadroddus.

Amlygodd y Dirprwy PCC y meysydd canlynol o'r Fframwaith Craffu:

- Deddfwriaeth a Chanllawiau - roedd yn bwysig bod y PCC yn bodloni ei ddyletswyddau ei hun mewn perthynas â phlismona plant a phobl ifanc, a oedd yn cynnwys ei ddyletswydd i ymgynghori â nhw. Ar ben hynny, mae'n rhaid i'r PCC graffu ar weithgareddau Heddlu Gogledd Cymru er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc Gogledd Cymru yn derbyn gwasanaeth heddlu a oedd yn deg, yn rhesymol ac yn gymesur.
- Canlyniadau ac amcanion:
  - Gwell hyder plant a phobl ifanc yn Heddlu Gogledd Cymru.
  - Llai o bobl ifanc yn cael eu tynnu i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.
  - Llai o bobl ifanc yn dod yn ddioddefwyr troseddau.

- Sicrhau bod Heddlu Gogledd Cymru yn diwallu anghenion plismona plant a phobl ifanc.
- Mae'r tri philer creiddiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ymdrin â Chyfranogi, Amddiffyn a Darpariaeth.
- Cyfranogi:
  - Ymgynghori, ymgysylltu a llais.
  - Y berthynas rhwng yr Heddlu a Phobl Ifanc.
- Amddiffyn:
  - Diogelu
  - Plant sy'n gwrthdaro â'r gyfraith a phlant yn gyntaf.
  - Lleihau troseddoli.
  - Datganoli Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru.
  - Plant yn y ddalfa / plant mewn celloedd yr heddlu dros nos.
  - Stopio a chwilio.
  - Chwiliadau ymwthiol.
- Darpariaeth:
  - Mesurau perfformiad.
  - Cynllun cyflawni i gael ei sefydlu, ynghyd â'r Llu Heddlu a byddai'n cael ei atodi a'i ddiweddaru fel atodiad i'r Fframwaith.

Byddai'r Dirprwy PCC yn ymgynghori â Chomisiynydd Plant Cymru i sicrhau bod y Fframwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiynydd.

Rhoddodd y Dirprwy PCC hefyd wybod mai prif gyfrwng y PCC ar gyfer craffu ar Heddlu Gogledd Cymru oedd y Bwrdd Gweithredol Strategol. Byddai angen diweddariad chwe mis gan yr Heddlu ar y materion a nodwyd ar gyfer craffu o fewn y fframwaith.

Ar ben hynny, awgrymodd y Dirprwy PCC y dylid cynnwys ystadegau o fewn y diweddariad cyfnodol ar sut y mae Heddlu Gogledd Cymru yn perfformio o gymharu â Heddluoedd eraill, gan gynnwys plant mewn gwrthdaro â'r gyfraith a ffigurau stopio a chwilio.

Gofynnodd y Cynghorydd Philip C. Evans Y.H. am eglurhad o ran datganoli Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru, a gafodd ei amlygu yn y Fframwaith Craffu a barn Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, y dylai Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru gael ei ddatganoli yn uniongyrchol at y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd.

Roedd PCC Gogledd Cymru yn eiriolwr brwd dros ddatganoli o'r fath a chytunodd i adrodd yn ôl i'r PCP ar sut y gallai system gael ei chyflwyno.

**PENDERFYNWYD:**

**(a) Nodi'r Fframwaith Craffu Plant a Phobl Ifanc Drafft 2017.**

**(b) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn rhoi adborth ar sut y gallai datganoli Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru gael ei ddatganoli i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yng Nghymru.**

42. **DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2016/17 (AR 30 MEDI 2016)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad i Banel yr Heddlu a Throsedd (PCP) ar y gyllideb blismona ar gyfer Gogledd Cymru ar 30 Medi 2016 (mis 6).

Hysbyswyd y PCP fod y sefyllfa wedi newid fel yr oedd ym mis 7 a'r tanwariant a ragwelir hyd at ddiwedd y flwyddyn yn net o £1.183m, oherwydd symudiad mewn incwm, oedd yn ymwneud â secondiadau.

Ceir crynodeb o'r cyllidebau cyfalaf a rhagamcanion ym Mharagraff 4 a nodwyd bod rhai prosiectau wedi cael eu dileu, gan eu bod wedi eu cwblhau erbyn hyn.

O ran y gyllideb ar gyfer 2017/18, roedd datganiad y Swyddfa Gartref i gael ei ryddhau ddydd Iau, 15 Rhagfyr 2016 a byddai adroddiad ar y praesept yn cael ei gyflwyno i'r PCP ar 23 Ionawr 2017.

Cyfeiriwyd at y gorwariant a ragwelir ar y gyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Adroddodd y Prif Swyddog Cyllid fod y gor-wario yn ymwneud â gwariant ar gyngor cyfreithiol ar gyfer mater Adnoddau Dynol.

**PENDERFYNWYD:**
**Nodi’r adroddiad.**

43. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am y flwyddyn i ddod.

**PENDERFYNWYD:**
**Cymeradwyo’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol.**

44. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Cynhelir cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddydd Llun 23 Ionawr 2017.

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.20 pm)

## Praesept Arfaethedig yr Heddlu

### *Cyflwyniad gan Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd*

Un o'm prif gyfrifoldebau yw pennu'r praesept blynyddol, sef y rhan honno o gyllideb yr heddlu a godir drwy drethi lleol. Mae'r praesept wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Panel Heddlu a Throsedd i'w gymeradwyo. Bydd lefel y praesept yn pennu cyfanswm y gyllideb sydd ar gael i Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer plismona gogledd Cymru. Mae ei bwysigrwydd i ansawdd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd plismona gogledd Cymru yn hanfodol i alluogi'r heddlu gadw gogledd Cymru yn lle diogel i fyw, gweithio ac ymweld.


Mae'r amcan hwn yn fwy heriol rŵan nag erioed. Mae cadw pobl yn ddiogel o'r pwys mwyaf.

Er mwyn galluogi'r Prif Gwnstabl i gyflawni'r amcanion hyn yn effeithiol, rwyf yn cynnig cynyddu treth y cyngor 3.79% yn 2017/18, sef cynnydd o £9.09 y flwyddyn neu 17c yr wythnos ar gyfer eiddo band D.

Cefais y ffigwr 3.79% drwy ystyried y canlynol:

<u>Barn y cyhoedd:</u>

Rhwng mis Hydref 2016 a 3 Ionawr 2017 cynhaliais arolwg cyhoeddus i gael barn trigolion gogledd Cymru ar eu blaenoriaethau plismona. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiwn yn gofyn pa gynnydd canrannol i dreth y cyngor y maent yn fodlon ag o, er mwyn buddsoddi mewn blaenoriaethau plismona. O'r 984 o bobl a ymatebodd i'r arolwg roedd 970 ohonynt yn talu treth y cyngor, ac o'r rheiny bu i 873 ateb y cwestiwn a oedd yn canolbwyntio ar y praesept. Mae'r siart gylch isod yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu y dylai treth y cyngor gynyddu 5% neu fwy.



Barn y Prif Gwnstabl:

Bu i mi gyfarfod â'r Prif Gwnstabl ym mis Rhagfyr i drafod ei gynlluniau ar gyfer yr heddlu a'r gyllideb sydd ei hangen arno i weithredu'r cynlluniau hynny. Cafwyd hyd i arbedion ychwanegol ac roedd hynny'n golygu ein bod ni, bryd hynny, wedi asesu y byddai cynnydd o 3.9% yn nhreth y cyngor yn angenrheidiol (os oedd y tybiaethau cynllunio mewn perthynas â grant y llywodraeth a'r sylfaen drethu yn gywir).

Grant y llywodraeth a'r sylfaen drethu:

Cafodd y setliad dros dro ei gyhoeddi ar 15 Rhagfyr 2016, ac roedd hynny'n arwain at ostyngiad o 1.4% mewn grant llywodraeth. Fodd bynnag, roedd hyn yn cael ei fantoli drwy gynnydd o 0.82% yn y sylfaen drethu. Ar ôl ystyried popeth, mae hyn yn golygu y bydd angen cynnydd o 3.79% yn nhreth y cyngor er mwyn darparu cyllideb ddigonol yn 2017/18.

Cynaliadwyedd tymor hir:

Mae yna ansicrwydd mawr o ran faint fydd gogledd Cymru yn ei dderbyn drwy'r fformiwla ariannu heddluoedd yn 2018/19 ac i'r dyfodol. Yn y sefyllfa ariannol sydd ohoni, y peth gorau i gorff cyhoeddus ei wneud yw cynyddu treth y cyngor a chronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, mae'n rhaid mantoli hyn drwy gydnabod y bydd rhai trigolion yng ngogledd Cymru, er bod nifer wedi cefnogi cynnydd o 5% yn nhreth y cyngor, yn ei chael hi'n anodd canfod yr arian ychwanegol. Mae fy nghronfeydd wrth gefn mewn sefyllfa sefydlog ac iach, ac felly rwyf wedi penderfynu cynyddu treth y cyngor yn unig er mwyn ariannu gwariant 2017/18, ac i fynd i'r afael â'r gostyngiad yng ngrant y llywodraeth pan fydd hynny'n digwydd.

Arfon Jones Ionawr 2017.

**Adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Praesept a Threth y Cyngor 2017/18** |
| **Cyfarfod:** | **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 23 Ionawr 2017** |
| **Awdur:** | **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw adolygu sefyllfa ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac i wneud argymhellion ar gyfer praesept a threth y cyngor ar gyfer 2017/18.

## 2. Argymhellion

2.1 Cynyddu'r praesept i £71,489,111.

- Bydd hyn yn cynyddu treth y cyngor o 3.79% - mae hyn yn gyfystyr â £249.21 y flwyddyn, sy'n gynnydd o £9.09 y flwyddyn, neu 17 ceiniog yr wythnos i eiddo band D.
- Mae hyn yn gynnydd o 4.64% i braesept yn 2016/17

2.2 Nodi bod £2.686 miliwn o doriadau wedi eu nodi ar gyfer 2017/18.

2.3 Nodi y bydd £1.277 miliwn pellach o'r toriadau yn cael eu hail-fuddsoddi i weithgareddau rheng flaen.

2.4 Nodi y bydd £1.001 miliwn pellach yn cael ei fuddsoddi i swyddi rheng flaen o'r cynnydd ychwanegol yn y praesept.

2.5 Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP), sydd yn cynnwys y tybiaethau canlynol:

- Bydd Treth y Cyngor yn cynyddu 3.79% yn 2017/18, a 2.5% yn 2018/19 i 2012/22.
- Bydd grantiau plismona yn gostwng 1.4% yn 2017/18 ac 1% bob blwyddyn o 2018/19 ymlaen.
- Bydd y taliadau mewn perthynas â Threth Prentisiaeth o'r 2017/18 ymlaen yn ychwanegu £0.431miliwn i'r gost, sydd yn gyfystyr â thoriad o 0.59% pellach yn y grant.

## 3. Crynodeb Cyllideb 2017/18

| | | £miliwn | |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb 2016/17** | | **141.067** | |
| Chwyddiant a gofynion ychwanegol | | 4.836 | +3.43% |
| **Gofynion y Gyllideb 2017/18** | | **145.903** | |
| | | | |
| **Cyfanswm y cyllid tybiedig 2017/2018** | | | |
| Grantiau'r Llywodraeth (cyfran cyllid 50.1%) | | 71.727 | -1.40% |
| Treth y Cyngor | £249.21 | | +3.79% |
| Wedi lluosi gan sylfaen drethu | 286,863 | | +0.82% |
| Praesept (cyfran cyllid 49.9%) | | 71.489 | +4.64% |
| **Cyfanswm y Cyllid sydd ar gael** | | **143.217** | **+1.52%** |
| | | | |
| **Toriadau gofynnol.** | | **2.686** | |

## 4. Eitemau Statudol

4.1 Ansawdd gwybodaeth

4.1.1 Mae'n rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003 (a5), roi sylwadau ar addasrwydd yr wybodaeth a ddefnyddir fel y sail ar gyfer penderfyniadau cyllidebol. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn cadarnhau bod y ffigurau yn y gwahanol adroddiadau yn gynnyrch gweithdrefnau sydd yn parhau i'w gweithredu i'r safonau proffesiynol uchaf. Mae'r systemau hyn yn cael eu harchwilio yn fewnol ac allanol, nid yw archwiliad allanol erioed wedi cyflwyno adroddiad archwilio cymwys. Felly, ym marn y Prif Swyddog Cyllid mae'r wybodaeth hon yn addas i'r diben.

4.1.2 Mae'r un Ddeddf hefyd yn gofyn i'r Prif Swyddog Cyllid roi sylwadau ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn i'w darparu yn y gyllideb. Ym marn y Prif Swyddog Cyllid bydd y gronfa wrth gefn cyffredinol yn parhau i fod yn ddigonol ar gyfer anghenion gweithredu dyddiol yr Heddlu. Mae'r cronfeydd wrth gefn wedi cael eu hadolygu, ac mae manylion pellach wedi'u darparu ym mharagraff 10.

## 5. Cefndir

5.1 Bydd toriadau o £26.939 miliwn yn cael eu cyflawni dros 6 blynedd o fentrau darbodus y Llywodraeth. Mae cyllid grant wedi gostwng 21.5% dros y cyfnod o chwe blynedd, ac mae cyfanswm incwm praesept wedi cynyddu 22% dros yr un cyfnod; mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 17.4% mewn termau real yng nghyfanswm y gyllideb. Mae'r tabl isod yn nodi'r toriadau sydd wedi eu gwneud hyd yma:

| Blwyddyn | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Toriadau a wnaethpwyd | £4.678 miliwn | £6.016 miliwn | £4.634 miliwn | £4.325 miliwn | £4.448 miliwn | £2.838 miliwn | £26.939 miliwn |

5.2 Cyflawnodd y Llywodraeth dau adolygiad mawr yn ystod yr haf yn 2015 a fyddai'n penderfynu ar y lefel o grantiau Llywodraeth i blismona ar gyfer y dyfodol. Adolygodd yr Adolygiad o Wariant (SR2015) y dyraniad cyllideb i holl Adrannau'r Llywodraeth gan gynnwys y cyfanswm sydd ar gael i blismona. Roedd canlyniad yr adolygiad o wariant wedi arwain at doriad o 0.6% i ddyraniad grant Heddlu yn 2016/17 gydag ymrwymiad cyllid i'r dyfodol gael ei osod fel nad yw'r Heddlu yn wynebu gostyngiad arian parod" os yw'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn gwneud y mwyaf o'u praesept".

5.3 Cyflawnwyd adolygiad o Fformiwla Gyllido yr Heddlu gan y Swyddfa Gartref, mae'r fformiwla yn nodi sut mae'r Swyddfa Gartref yn dosbarthu cyfanswm cyllid sydd ar gael i blismona rhwng ardaloedd plismona. Cafodd adolygiad o'r Fformiwla Gyllido yr Heddlu ei ohirio yn dilyn materion a godwyd gan yr Heddlu o ran cywirdeb y fformiwla arfaethedig. Mae'r adolygiad wedi ail-ddechrau gyda'r bwriad o weithredu fformiwla newydd yn 2018/19. Ni fydd modd asesu effeithiau i Ogledd Cymru nes bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn cael eu cyhoeddi.

Fodd bynnag, os yw’r adolygiad yn arwain at ostyngiad sylweddol mewn grant llywodraeth, bydd hyn yn peri bod angen toriadau ychwanegol a chynnydd uwch i dreth y cyngor.

**6. Yr Amgylchedd Cynllunio**

6.1 Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) atodedig yn amlinellu'r amgylchedd gynllunio. Mae’n cynnwys ffigurau'r blynyddoedd blaenorol ynghyd â rhagamcanion ar gyfer incwm a gwariant refeniw, a chynlluniau ar gyfer cronfeydd cyfalaf a chronfeydd wrth gefn.

6.2 Ar adeg setliad 2016/17 nid oedd Ddyraniadau Cyllid Llywodraeth dros dro ar gyfer 2017/18 wedi eu cyhoeddi Fodd bynnag, roedd yn amlwg y byddai toriadau’n parhau yn ystod cyfnod y Senedd gyfredol o leiaf. Mae’r broses i adnabod a darparu arbedion wedi ei sefydlu’n dda dan reolaeth y Bwrdd Cynllunio Strategol, sydd yn cael ei gadeirio gan y Brif Gwnstabl.

6.3 Cafodd broses ar gyfer cyllideb 2017/18 ei weithredu i adnabod gofynion newydd neu unrhyw fylchau mewn adnoddau a all arwain at lai o adnoddau ar gael. Cafodd y cynigion eu craffu gan gyfoedion, Prif Swyddogion a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

6.4 Yn ychwanegol at adnabod yr arbedion angenrheidiol, ymgymerwyd â’r broses arferol i bennu anghenion cyllideb y dyfodol, a cheir eglurhad manylach yn y MTFP. Cymerwyd ystyriaeth o’r canlynol wrth ddatblygu'r MTFP:

- Blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel y’i pennir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd, Gofyniad Plismona Strategol a Chynllun Gweithredu’r Heddlu 2017/18.
- Pwysau newydd a rhai sy’n datblygu.
- Y broses gynllunio strategol
- Strategaethau eraill yr heddlu
- Yr hinsawdd economaidd gyfredol
- Y sefyllfa ariannol bresennol
- Amcangyfrif o’r adnoddau sydd ar gael
- Rhagolygon cyllidebol ar gyfer y cyfnod, gan gynnwys dyfarniadau cyflogau
- Y rhaglen gyfalaf, y Cod Darbodus a’r effaith ar y gyllideb refeniw.
- Cronfeydd Wrth Gefn a balansau
- Cynhyrchu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
- Cydweithio

6.5 Roedd cyfanswm o £2.838 miliwn wedi ei dynnu o gyllideb 2016/17 o’i gymharu â’r flwyddyn ariannol flaenorol; mae hyn o fewn targed i’w gyflawni. Cyflawnwyd adolygiad o’r cronfeydd wrth gefn ar sail rhagolygon refeniw a chyfalaf ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

6.6 Bob blwyddyn mae’r Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu'r Heddlu a'i sefyllfa ariannol gyffredinol, proses gynllunio ac arbedion blynyddol; mae rhagor o fanylion wedi’u cynnwys yn y MTFP. Nodwyd bod, hyd yma, yr Heddlu wedi gallu diogelu gwasanaethau rheng flaen a niferoedd swyddogion i raddau helaeth, a bod cyfran uwch o arbedion heb fod yn staff wedi'u gwneud o'i gymharu â’r sefyllfa genedlaethol, ond mae gwneud hyn yn dod yn fwyfwy anodd.

**7. Dyraniadau Cyllid**

7.1 Ar adeg setliad 2016/17 nid oedd Dyraniadau Cyllid Llywodraeth dros dro ar gyfer 2017/18 wedi eu cyhoeddi. Fodd bynnag, mewn llythyr i'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstablau, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref a Gweinidog dros Blismona "*gan ystyried y cwmpas bod rhaid i chi gynyddu treth y cyngor, mae hyn yn golygu setliad real gwastad i blismona ar y cyfan.*" Wedi seilio ar yr amcan bod toriad grant blynyddol o 1% wedi'i gynnwys yn MFTP Ionawr 2016.

7.2 Ar 15 Rhagfyr 2016, cyhoeddwyd cyllid 2017/18. Roedd y cyllid grant ar gyfer pob ardal Heddlu wedi ei ostwng 1.4%, roedd y Llywodraeth yn gallu cadw ei addewid o gynyddiad arian fflat cyffredinol oherwydd cynyddiadau uwch na'r disgwyl i sylfaen drethu disgwyliedig, fel yr eglurir yn y dyfyniad isod o'r cyhoeddiad,

*'Yn dilyn yr egwyddorion a osodwyd ar 4 Chwefror 2016 pan gyhoeddwyd y setliad terfynol cyllid yr heddlu ar gyfer 2016/17 [HCWS510], bydd cyllid adnoddau uniongyrchol ar gyfer pob Comisiynydd Heddlu a Throsedd, gan gynnwys praesept, yn cael eu diogelu ar lefelau arian gwastad o'i gymharu â 2015/16, gan dybio bod yr incwm praesept yn cael ei gynyddu i'r swm uchaf sydd ar gael yn 2016/17 a 2017/18. Ni fydd unrhyw Gomisiynydd Heddlu a Throsedd sy'n dewis mwyhau praesept yn y ddwy flynedd yn wynebu gostyngiad mewn cyllid arian parod y flwyddyn nesaf o'i gymharu â 2015/16. Rydym wedi diweddaru ein rhagolygon praesept ar gyfer 2017/18 ers mis Chwefror i adlewyrchu cynyddiadau gwirioneddol yn sylfaen drethu yn 2016/17.'*

7.3 Roedd cyfanswm cyllid Heddlu wedi cynyddu 1.69%, fodd bynnag oherwydd cynyddiad mewn dyraniadau canolog (brigdorri) o 42%, a bod rhai elfennau o gyllid uniongyrchol yn cael ei ddiogelu mewn termau arian parod, roedd y swm ar gael i ddyrannu i ardaloedd Heddlu yn cael ei leihau 1.4%. Mae manylion cyfanswm cyllid Heddlu yn genedlaethol i'w gweld yn y tabl isod.

| | **2016/17** | **2017/18** | **Var** | **Var** |
|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **%** |
| | | | | |
| | | | | |
| **Cyllid Llywodraeth Ganolog** | **8,356** | **8,497** | **141** | **1.69%** |
| | | | | |
| **Cyllid Trawsnewid ac Ail-ddyraniadau eraill** | **572** | **812** | **240** | **41.96%** |
| | | | | |
| Cyllid uniongyrchol | 7,784 | 7,685 | -99 | -1.27% |
| sydd yn NICC (cyllid cyfalaf dinas) | 178 | 178 | 0 | 0.00% |
| sydd yn Gyllid Fformiwla | 7,061 | 6,962 | -99 | -1.40% |
| sydd yn Grantiau Etifeddol Treth Y Cyngor | 545 | 545 | 0 | 0.00% |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Canolog** | **8,356** | **8,497** | **141** | **1.69%** |
| | | | | |
| Tybiaethau Praesept HO | 3,194 | 3,307 | 113 | 3.54% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| CYFANSWM (Cyllid Uniongyrchol gyda Praesept) | 10,978 | 10,992 | 14 | 0.13% |

7.4 Mae'r dadansoddiad o'r swm brigdorri i'w weld isod:

| **Brigdoriant** | **2017/18** |
|---|---|
| Cynllun Ariannu Preifat | £73 miliwn |
| Rhaglenni Technoleg Heddlu (gan gynnwys ESN) | £417 miliwn |
| Cyrff Hyd Braich (Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, IPCC) | £54 miliwn |
| Cryfhau'r Ymateb i Droseddau a drefnwyd | £28 miliwn |
| Cyllid trawsnewid Heddlu | £175 miliwn |
| Grant Arbennig | £50 miliwn |
| Mechnïaeth Cyn-cyhuddiad | £15 miliwn |
| Cyfanswm | **£812 miliwn** |

7.5 Mae canlyniad y cyhoeddiad cyllid a'i effaith ar Heddlu Gogledd Cymru wedi ei nodi isod:

- Gostyngiad cyfradd gwastad o 1.4% i bob ardal plismona. Mae hyn yn golygu gostyngiad grant o £1.017 miliwn i Ogledd Cymru.
- Yn ychwanegol i'r uchod, bydd y Treth Prentisiaeth yn ychwanegu cost o £0.431 miliwn a bydd yn cynyddu cyfraddau busnes yn arwain at gynyddiad o £0.121 miliwn.
- Mae 'brigdorri' cyffredinol wedi cynyddu o £572 miliwn i £812 miliwn, ac yn awr mae'n cynnwys symiau tuag at uwchraddio cenedlaethol o'r system gyfathrebu heddlu. Mae hyn yn lleihau'r swm o grant sy'n dod i Ogledd Cymru o dros £ 8 miliwn. Fodd bynnag, mae effaith hyn yn llai na ymddangosir yn y lle cyntaf, gan fydd rhai costau yn cael eu diwallu'n ganolog, yn hytrach nag o gyllidebau heddlu unigol (e.e. ESN).
- Roedd Grant Cyfalaf wedi cael ei leihau o £0.541 miliwn i £0.462 miliwn, gostyngiad o £0.079 miliwn, sydd yn dilyn gostyngiad o £0.360 miliwn yn y flwyddyn flaenorol.
- Mae heddlu yn Lloegr yn parhau i dderbyn cyllid etifeddol treth y cyngor o £545miliwn.
- Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau ar gyllid yn y dyfodol nag ar y fformiwla gyllido. Felly, mae'n amhosib rhagweld gydag unrhyw sicrwydd o'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2018/19 a thu hwnt.

7.6 Wedi seilio ar y cyfansymiau a ddarparwyd a chyhoeddiad eleni, mae wedi cael ei amcangyfrif y bydd toriad pellach o 1% i grantiau ym mhob un o'r pedair blynedd nesaf.

7.7 Mae'r Fformiwla Gyllido'r Heddlu yn cael ei hadolygu gyda'r bwriad o weithredu fformiwla newydd yn 2018/19. Roedd yr ymarfer a gyflawnwyd yn 2015/16 wedi newid i ddechrau'r gyfran o gyllid a ddyrannwyd i Ogledd Cymru o 1.03% i 1.06%, mae hyn yn newid bychan mewn % ond ar sail cyllid 2015/16, byddai cyllid ychwanegol o £2 miliwn wedi cael ei roi i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Fodd bynnag, daeth yn hysbys bod y Swyddfa Gartref wedi rhoi un set o ddata am un arall, ac ar ôl i'r data cywir gael ei mewngorffori yn y fformiwla, roedd hyn yn creu gwahaniaethau mawr i'r ffigurau gwreiddiol

a gyhoeddwyd, a fyddai wedi arwain at ostyngiad mewn grant o £14.5 miliwn i Ogledd Cymru. O ganlyniad, cyhoeddodd y Gweinidog dros Blismona ar y pryd y byddai'r broses yn cael ei ohirio a byddai dyraniadau ar gyfer 2016/17, a 2017/18 yn awr, yn cael eu gwneud mewn ffordd tebyg i'r blynyddoedd blaenorol. Byddai hyn yn golygu'r un canran o doriad ar gyfer pob ardal heddlu.

7.8 Mae gwaith ac ymgynghori pellach yn cael ei gyflawni ar y cynigion fformiwla cyllido. Bydd hyn yn golygu y bydd ansicrwydd parhaus o ran lefel o gyllido ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru tan fydd penderfyniad terfynol wedi ei wneud ar fformiwla gyllido ddiwygiedig. Bydd rhaid i'r cynnig gynnwys cynigion ar gyfer newid o'r dyraniad cyfredol i ddyraniad wedi'i ddiwygio. Hwn yw' r risg mwyaf i'r gyllideb; er enghraifft; os byddai'r fformiwla gyfredol yn cael ei roi ar waith, byddai'n golygu gostyngiad o £10 miliwn mewn grant sydd yn cael ei dderbyn ar hyn o bryd fel "grant llawr". Nid oes manylion wedi'u darparu hyd yma, disgwylir y bydd ychydig o fanylion yn cael ei roi ym mis Chwefror 2017. Os bydd canlyniadau'r adolygiad o fformiwla gyllido yn arwain at ostyngiad grant sylweddol i Ogledd Cymru, yna byddai arbedion pellach a chynyddiadau treth y cyngor ychwanegol ei angen i ddiogelu darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol.

## 8. Cyllideb 2017/18 tan 2021/22

8.1 Gweler crynodeb o Ragolygon Cyllideb a newidiadau ar gyfer 2017/18 a blynyddoedd i ddod yn Atodiad A.

8.2 Y prif dybiaethau o fewn yr MTFP yw:

- Chwyddiant cyflog blynyddol o 1% o fis Medi ymlaen
- Chwyddiant cyffredinol o 2%, chwyddiant penodol i hyn lle mae'n hysbys
- Cynnydd mewn Treth y Cyngor o 3.79% yn 2017/18 a 2.5% yn 2018/19 i 2021/22
- Gostyngiadau grant pellach o'r adolygiad fformiwla gyllido yn arwain at gynyddiadau ychwanegol mewn treth y cyngor o'r 2018/19 ymlaen
- Gostyngiadau grant o 1.4% 2017/18, a gostyngiad o 1% yn y blynyddoedd dilynol
- Cynnydd 0.25% mewn sylfaen drethu o 2018-19 ymlaen

8.3 **Arbedion –** Roedd MTFP 2016/17 yn cynnwys arbedion ar gyfer 2017/18 a oedd yn £2.077 miliwn**.** Cafodd y cynlluniau hyn eu datblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn, gyda chyflawni ymarfer cyllidebu ar sail sero yn TG, Ystadau, Fflyd ac elfennau o Gyflenwadau a Gwasanaethau. Yr effaith gyffredinol hyn yw cynnydd net mewn arbedion o £0.609 miliwn i £2.686 miliwn. Y ffrydiau gwaith manwl yw:

| **Newid yng nghynllun arbedion rhwng yr un gwreiddiol a'r un terfynol 2017/18** | **Ionawr 2016** | **Ionawr 2017** |
|---|---|---|
| Cyllideb TG | 210 | 550 |
| Cyllid ac Adnoddau | 726 | 534 |
| Adolygiad Gwasanaethau Corfforaethol | 26 | 26 |
| Dyfodol Gweithrediadau LPS | 81 | 81 |
| Dyfodol Gweithrediadau SCCH | 517 | 546 |
| Ystadau | 68 | 78 |
| Cerbydau a Chludiant | 228 | 240 |
| Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu | 196 | 196 |

| | | |
|---|---|---|
| Gohebiaeth yn y dyfodol | 25 | 25 |
| Caffael | 0 | 25 |
| Swyddogion Cyswllt yr Ysgolion (Gostyngiad grant) | 0 | 68 |
| Arbedion ychwanegol o'r ymarfer diswyddiadau gwirfoddol 2015- 16 | 0 | 317 |
| | | |
| **Cyfanswm** | 2,077 | 2,686 |

8.4 **Tyfiant –** Mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn peri bod angen adnoddau ychwanegol mewn meysydd penodol o waith**.** Yn y blynyddoedd diweddar, mae hyn wedi cael sylw drwy ail-flaenoriaethu o fewn y gwasanaethau. Ar yr un pryd, mae'n bwysig bod yn ymwybodol na fyddai hyn o reidrwydd yn ddigonol, ac felly roedd cynigion i dyfiant yn cael eu hystyried yn ystod y broses gyllido. Derbyniwyd a chraffwyd ar gynigion a oedd yn gyfanswm o £3.1 miliwn. Gyda chynnydd treth y cyngor o 2.5% (yn ôl MTFP 2016/17) a chan ystyried yr arbedion ychwanegol a nodwyd uchod, a hefyd dyrannu adnodd presennol, byddai tyfiant o £1.277 miliwn yn gallu cael ei ariannu. Cafodd yr eitemau canlynol eu blaenoriaethu:

| **Disgrifiad** | **Swyddog** | **Staff** | **Cost £'000** |
|---|---|---|---|
| Carchar Wrecsam | 3 | | 185 |
| Adran Hyfforddi | 1 | 3 | 138 |
| Rheolwr Datblygu Gwybodaeth Rheoli | | 1 | 50 |
| Cynhaliaeth Fideo a wisgir ar y corff | | | 40 |
| Costau Ymchwilio | | | 148 |
| Profi cyffuriau ar ochr y ffordd | | | 157 |
| Swyddogion Carchar | | 2 | 81 |
| Ailstrwythuro PSD | | 3 | 64 |
| Staff Ystafell Reoli | | 6 | 220 |
| Adran Gyfreithiol | | 1.2 | 66 |
| Swyddog Cyfathrebiadau Mewnol | | 1 | 35 |
| Tîm HMIC Mewnol | 1 | 1 | 93 |
| **Cyfanswm** | **5** | **18.2** | **1,277** |

8.5 Roedd set ychwanegol o gynigion yn cael eu categoreiddio i fod yn ychwanegol i ofynion cyfredol oherwydd blaenoriaethau cenedlaethol ac/neu leol yn ogystal ag ardaloedd troseddu newydd ac sy'n datblygu. Roedd rhain yn dod i gyfanswm o dros £1 miliwn ac wedi'u nodi isod. Mae'r gofynion ychwanegol mewn atal, adnabod ac ymchwilio ecsbloetiaeth o bobl diamddiffyn sydd wedi ei nodi fel blaenoriaeth cenedlaethol yn ogystal â lleol, ac yn cynnwys ecsbloetiaeth ar-lein, wedi rhoi pwysau ar adnoddau ditectif yn y blynyddoedd diweddar (Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn PVPU). Mae'r tri cynnig cyntaf isod wedi targedu yn uniongyrchol ar y meysydd hyn; mae'r bedwaredd yn gynnydd mewn Ditectyddion dan hyfforddiant sydd ei angen i hyfforddi Swyddogion i lenwi swyddi gwag yn y dyfodol. Mae'r pumed linell yn rhoi'r sylw ar y gofyniad i gael tîm i gyflawni gwaith rhagweithiol ar lefel cymuned leol ar draws yr Heddlu, i droseddwyr problemus lefel is.

| **Disgrifiad** | **Swyddog** | **Staff** | **Cost** |
|---|---|---|---|

| | | | £'000 |
|---|---|---|---|
| Cydlynydd  Caethiwed yn y  Dydd Modern | 1 | | 63 |
| Ditectif Arolygydd  PVPU | 1 | | 71 |
| Arolygwyr Staff PVPU/MIT | | 6 | 261 |
| Swyddi Ditectif dan hyfforddiant | 5 | | 256 |
| 10  Swyddog Ymateb Rhagweithiol | 10 | | 350 |
| **Cyfanswm** | **17** | **6** | **1,001** |

8.6 Mae'r newid cyffredinol  yn y gyllideb wedi'i amlinellu yn y tabl isod.

| | £'000 |
|---|---|
| **Cyllideb Net 2016/17** | **141.067** |
| Chwyddiant Cyflog (1%) | 1.107 |
| Ddim yn gyflog | 0.533 |
| Chwyddiant penodol a Thyfiant anochel | 1.291 |
| Arbedion yn cael eu hail-fuddsoddi i dyfiant | 1.277 |
| Gofyniad newydd i dyfiant | 1.001 |
| Chwyddiant yn cael ei dynnu | -0.373 |
| Arbedion a dynnwyd | -2.686 |
| **Cyllideb net 2017/18** | **143.217** |

8.7 Mae gwaith pellach wedi'i gyflawni ar gyllideb amcanol o  2018/19 i 2021/22 wedi seilio ar dybiaethau ym mharagraff 8.2. Cyflawnwyd gwaith manwl ar gostau cynyddrannol ac arbedion o fewn cyllidebau'r Heddlu a Staff; mi wnaeth hyn alluogi'r cyllidebau hyn cael eu hail seilio a chynnwys cyllid swyddogion ar brawf ar sail ffurfiol yn hytrach na chyllid o arbedion cynyddrannol fel sydd wedi bod yn y blynyddoedd blaenorol. Lle mae arbedion dyfodol wedi'u cadarnhau, mae'r rhain wedi'u tynnu o'r gyllideb hefyd.  Mae'r cyllidebau arfaethedig diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2017/18 i 2021/22 wedi'u amlinellu isod.

| | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Gwariant Gros** | 157,968 | 159,673 | 161,342 | 163,586 | 165,449 | 167,438 |
| **Incwm a Chronfeydd wrth gefn** | -16,901 | -16,456 | -16,461 | -16,486 | -16,512 | -16,595 |
| | | | | | | |
| **Gwariant Net** | 141,067 | 143,217 | 144,881 | 147,100 | 148,937 | 150,843 |
| | | | | | | |
| **Grant** | -72,745 | -71,728 | -71,011 | -70,301 | -69,598 | -68,902 |
| **Praesept** | -68,322 | -71,489 | -73,460 | -75,484 | -77,565 | -79,703 |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid** | -141,067 | -143,217 | -144,471 | -145,785 | -147,163 | -148,605 |
| **Toriadau cynyddol yn ofynnol** | 0 | 0 | 410 | 1,315 | 1,774 | 2,238 |
| **Toriadau blynyddol** | | | 410 | 905 | 459 | 464 |

8.8 Wedi seilio ar y tybiaeth a osodwyd , bydd angen gwneud arbedion pellach o £2.238 miliwn i gydbwyso'r gyllideb o 2018/19 tan 2021/22. Mae'r cynllun arbedion presennol wedi'i ymestyn

tu hwnt i 2019/20 tan 2021/22, ac wedi'i amlinellu yn y tabl isod. Bydd angen canfod arbedion yn y dyfodol gan fydd newidiadau eraill i Blismona yn digwydd, wedi seilio ar y tybiaethau cyfredol bydd arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol yn galluogi'r rhain gael eu hail-fuddsoddi i blismona rheng flaen. Fodd bynnag, mae cyllid yn y dyfodol yn ansicr oherwydd yr adolygiad i'r fformiwla gyllido ac ansicrwydd i'r hinsawdd economaidd yn dilyn y bleidlais Brexit. Os bydd hyn yn arwain at doriadau pellach yn y cyllidebau, bydd angen yr arbedion hyn i gydbwyso'r gyllideb.

| **Disgrifiad** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cyllid ac Adnoddau** | 150 | | | |
| **Dyfodol Gweithrediadau SCCH** | | 557 | | |
| **Ystadau** | | 250 | | |
| **Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu** | 50 | | | |
| **Gohebiaeth yn y Dyfodol** | 71 | | | |
| **Cydweithrediad Fforensig** | 72 | | | |
| **Cydweithrediad Niche/RMS** | 510 | | | |
| **Caffael – darpariaeth feddygol** | 75 | | | |
| **PFI** | | 500 | | |
| **Cyfraddau teithio newydd** | 97 | | | |
| **1% Arbedion effeithlonrwydd o'r defnydd o fentrau Rheoli Adnoddau a Thechnoleg** | | | 1,496 | 1,516 |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **1,214** | **1,307** | **1,496** | **1,516** |
| Cronnus | 1,214 | 2,521 | 4,017 | 5,533 |

## 9.0 Risgiau

9.1 Mae manylion ynghylch risgiau yn y dyfodol i'r gyllideb wedi'u cynnwys yn y MTFP. Rhoddir grynodeb o'r prif risgiau isod; mae'r rhai o'r rhain wedi'u hamlygu eisoes yn yr adroddiad hwn:

- Ansicrwydd o ran cyllido, gan gynnwys brigdorri, a manylion yn cael eu darparu'n hwyr yn y cylch cynllunio
- Gallai newidiadau i'r fformiwla gyllido yn y dyfodol fod yn niweidiol i Ogledd Cymru; tynnu'r grant llawr yn ôl - hwn yw'r risg mwyaf yn ystod y 12 mis nesaf.
- Gofynion cenedlaethol a lleol yn ymddangos
- Darparu cynlluniau arbedion cyfredol
- Dynodi cynlluniau arbedion yn y dyfodol
- Sefyllfa economaidd cenedlaethol yn gwaethygu ac rhaid gwneud toriadau ychwanegol
- Cynnydd mewn costau tâl (gan gynnwys cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol) – cyfrifon cyflog i oddeutu 80% o'r gyllideb net.

## 10. Hydwythedd a Chronfeydd wrth gefn

10.1 Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd i sicrhau ei fod yn cadw cronfeydd ariannol digonol wrth gefn i reoli risgiau. Yn ogystal â'r cyllid a'r rhagolygon risgiau a nodir uchod, mae'r

Comisiynydd angen teilwra ar gyfer y risg gwariant (gwario mwy na'r gyllideb), a digwyddiadau mawr costus, trychinebau naturiol neu ddigwyddiadau nas ragwelir. Mae elfen o'r risg hwn wedi'i reoli drwy gyllidebau yn y flwyddyn drwy gyllidebau arian at raid. Mae'r rhain wedi eu gostwng ac mae'r gyfran fwyaf o'r risg yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn.

10.2 Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses gosodiad cyllideb ac eto fel rhan o gynhyrchu Datganiad Cyfrifon. Oherwydd y newidiadau a wnaethpwyd i gyllideb Cyflog Heddlu, nid yw'n angenrheidiol mwyaf i gael Cronfeydd wrth gefn swyddogion ar brawf penodol, bydd y gronfa wrth gefn hwn o £3.974 miliwn yn cael ei ail-leoli i gronfeydd wrth gefn eraill fel a ganlyn:

| **Disgrifiad** | **£'000** | **Rheswm** |
|---|---|---|
| Cronfa wrth gefn i Swyddogion ar Brawf | (3,974) | Dim angen mwyach (MTFP Para 7.2) |
| Cronfa wrth gefn Cyffredinol | 1,000 | Ansicrwydd cynyddol ac fel sicrhad o fewn cyrhaeddiad doeth. |
| Cronfa wrth gefn i Ddigwyddiad Mawr | 0.200 | Cost cynyddol o Ddigwyddiadau Mawr yn 2016-17 |
| Cronfa wrth gefn Afiechyd | 0.500 | Cyllideb yn darparu ar gyfer 6 ymddeoliad ar sail Afiechyd ond mae'r niferoedd wedi bod yn uwch na hyn yn y blynyddoedd diwethaf. |
| Rheoli Newid | 2,274 | Bydd gweithredu newid yn y dyfodol angen adnoddau tymor byr . Bydd hyn yn cynnwys costau recriwtio a hyfforddi. |

10.3 Mae'r Cronfa wrth Gefn Cyffredinol wedi ei gynyddu i £5.189 miliwn sydd yn 3.6% o amcan gyllideb net 2017/18. Mae'r ystod darbodus yn cael ei ystyried i fod yn 3% i 5% o gyllideb net.

10.4 Bydd y defnydd o'r cronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar y penderfyniadau terfynol ar wariant cyfalaf a setliadau refeniw terfynol, felly mae'r tabl isod yn dangos y cynllun cyfredol ar sut y gellir gwneud y defnydd gorau o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gefnogi darpariaeth gwasanaeth a lleihau'r pwysau ar gyllideb refeniw. Os nad yw'r defnydd o'r Cronfa Wrth Gefn yn hysbys (megis Cronfa Wrth Gefn Digwyddiad Mawr) ni fydd newidiadau yn dangos. Bydd defnydd o'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu yn rheolaidd.

Mae manylion y sefyllfa cronfa wrth gefn arfaethedig ar ddiwedd bob blwyddyn i'w gweld yn y tabl.

| **Sefyllfa Cronfeydd wrth gefn ar** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| ***Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy*** | **31.3.16** | **31.3.17** | **31.3.18** | **31.3.19** | **31.3.20** | **31.3.21** | **31.3.22** |
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Derbynebau Cyfalaf | 3.495 | 2.075 | 1.128 | 1.057 | 0.607 | 0.607 | 0.607 |
| Balans Cyllid Cyffredinol | 4.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 |
| Cronfeydd wrth gefn a Glustnodwyd (Manylion isod) | 31.502 | 24.796 | 15.827 | 15.948 | 15.544 | 15.509 | 15.391 |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy** | **39.186** | **32.060** | **22.144** | **22.194** | **21.340** | **21.305** | **21.187** |

Mae dadansoddiad o Gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol wedi'i nodi isod. Mae disgrifiad o bob cronfa wrth gefn wedi'i gynnwys yn y MTFP.

| **Disgrifiad** | **31.3.16** | **31.3.17** | **31.3.18** | **31.3.19** | **31.3.20** | **31.3.21** | **31.3.22** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Buddsoddiad Cyfalaf** | 14.845 | 8.288 | 0.513 | 0.513 | 0.065 | 0.065 | 0.065 |
| **Digwyddiad mawr** | 2.235 | 2.435 | 2.197 | 2.197 | 2.197 | 2.197 | 2.197 |
| **Cronfeydd wrth gefn Pensiwn Afiechyd** | 0.415 | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 |
| **Cronfeydd wrth Gefn Yswiriant** | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 |
| **Cronfa Wrth Gefn PFI** | 3.692 | 3.987 | 4.212 | 4.333 | 4.377 | 4.342 | 4.224 |
| **Cronfa wrth gefn Swyddogion ar Brawf** | 3.974 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| **Cynhaliaeth a Diogelwch Ystadau** | 1.938 | 1.620 | 1.301 | 1.301 | 1.301 | 1.301 | 1.301 |
| **Rheoli Newid** | 2.027 | 5.383 | 4.521 | 4.521 | 4.521 | 4.521 | 4.521 |
| **Cronfa wrth gefn Partneriaethau** | 0.588 | 0.380 | 0.380 | 0.380 | 0.380 | 0.380 | 0.380 |
| **Cyllid Diogelwch Cymunedol Comisiynwyr** | 0.280 | 0.280 | 0.280 | 0.280 | 0.280 | 0.280 | 0.280 |
| **Cyllidebau Trawsnewid/Cyfreithiol/ Cyfranogol Comisiynydd Heddlu a Throsedd** | 0.335 | 0.335 | 0.335 | 0.335 | 0.335 | 0.335 | 0.335 |
| **Cyfanswm** | **31.502** | **24.796** | **15.827** | **15.948** | **15.544** | **15.509** | **15.391** |

## 11. Cyfalaf

11.1 Mae nifer o brosiectau mawr o fewn y Rhaglen Gyfalaf lle mae cytundebau wedi cael eu llofnodi a gwaith wedi dechrau yn 2016/17, ac yn parhau i mewn i 2017/18 a thu hwnt; mae proffil y Rhaglen wedi cael ei adolygu i adlewyrchu'r llif arian rhagamcanol i'r prosiectau hyn. Y rhain yw'r cyfleuster y ddalfa a phencadlys yng ngorsaf heddlu yng nghanol tref Wrecsam,

Gorsaf Heddlu newydd yn Llandudno, technoleg newydd yn yr ystafell reoli a datblygiadau data symudol.

11.2 Hefyd mae prosiectau ystadau llai i'w cwblhau yn ogystal ag diweddariad o'r system fusnes a rhaglen amnewid cerbydau blynyddol.

11.3 Mae'r Rhaglen yn fforddiadwy ac yn cael ei ariannu gan gyfuniad o grantiau, cronfeydd wrth gefn, benthyciadau a chyfraniad refeniw uniongyrchol. Mae'r strategaeth cyffredinol i leihau benthyciadau a mwyhau'r symiau sydd wedi ei chyllido yn y refeniw drwy ddefnydd o gyfraniad refeniw uniongyrchol, sydd mewn amser yn lleihau'r taliadau llog.

11.4 Dengys y Rhaglen Gyfalaf yn yr MTFP, a fydd yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol fel rhan o Reoli Trysorlys a Strategaeth Cod Darbodus.

**Crynodeb Rhaglen Gyfalaf 2016/17 tan 2021/22**

| **Gwariant** | **£m** |
|---|---|
| Ystadau | 24.061 |
| Cerbydau a Chyfarpar | 8.864 |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfrifiadura | 9.746 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **42.671** |
| | |
| **Cyllid** | |
| Grantiau | 3.116 |
| Cyfraniad Refeniw | 8.351 |
| Cronfeydd wrth gefn | 14.780 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 6.183 |
| Benthyciadau - Ystadau | 4.957 |
| Benthyciadau – Rhaglen Amnewid TG | 5.284 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **42.671** |

## 12. Ystyried yr Opsiynau

12.1 Mae'r newidiadau sylweddol wedi cael eu gwneud rhwng y MTFP blaenorol a'r un cyfredol:

| **Newid rhwng 2015/16 a 2016/17** | **Ionawr 2016** | **Ionawr 2017** |
|---|---|---|
| Toriad mewn grant llywodraeth | 1% | 1.4% |
| Cynnydd mewn treth y cyngor | 2.5% | 3.79% |
| Toriadau wedi'u cynllunio/ adnabod ar gyfer 2017/18 | £2.077m | £2.686m |
| Cynnydd Sylfaen Trethu | 0.25% | 0.82% |

Mae'r Comisiynydd wedi ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael. Nid oedd y toriadau o £2.077 miliwn a dybiwyd yn flaenorol ar gyfer 2017/18 yn caniatáu galwadau sy'n ymddangos, a fyddai'n golygu y gallai'r rhain ond cael eu diwallu drwy adleoli swyddogion rheng flaen. Ym mis Tachwedd, cyflwynodd yr Heddlu gynlluniau drafft wedi seilio ar y toriad grant o 1% a gwneud arbedion o £2.7 miliwn, a bydd £1.3 miliwn o hwn yn cael ei ail-fuddsoddi i gefnogi gweithgareddau rheng flaen, gyda chynnig pellach am ofynion newydd yn dod i £1 miliwn.

Byddai hyn wedi arwain at gynnydd o 3.9% mewn Treth y Cyngor. Os na fyddai arbedion wedi eu canfod, byddai gofyniad cyfanswm cyllideb wedi gorfod codi treth y cyngor o 5.75%, fodd bynnag cafodd hyn ei leihau gan fod yr Heddlu wedi canfod arbedion y gellir ei ail-fuddsoddi. Roedd y cyhoeddiad grant terfynol yn cynyddu'r lleihad grant i 1.4%, fodd bynnag roedd hyn gosod yn erbyn cynnydd yn y sylfaen drethu o 0.82%, y sefyllfa net oedd y byddai'r cynnydd o 3.9% yn gallu cael ei leihau i 3.79%. Wrth benderfynu ar y cynnydd arfaethedig mewn Treth Y Cyngor, mae'n rhaid canfod cydbwysedd rhwng fforddiadwyedd a sicrhau bod gan gwasanaeth yr heddlu ddigon o gyllid, wedi seilio ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y chwe blynedd diwethaf a'r rhagolygon am y pum mlynedd nesaf. Bydd toriadau ychwanegol bob amser yn effeithio ar y rheng flaen a niferoedd swyddogion. Wedi seilio ar hyn, a'r arbedion y mae'r Heddlu wedi'i wneud eisoes, cynigir ar gynnydd treth y cyngor o 3.79% a fydd yn diogelu'r gyllideb a chaniatáu ychydig o fuddsoddiad i swyddi rheng flaen.

12.2 Mae'r Comisiynydd wedi trafod gyda'r Prif Gwnstabl sydd wedi cadarnhau bod cynnydd o 3.79% mewn treth y cyngor yn darparu cyllideb ddigonol i alluogi darpariaeth weithredol o wasanaethau plismona yn 2017/18. Fodd bynnag, oherwydd ansicrwydd yn y dyfodol ar y lefel o ddyraniad grant a newidiadau mewn pwysau gweithredol, nid yw'n bosibl rhoi sylw o ran cywirdeb tybiaethau cynllunio, ac mae'n rhaid deall y byddai gostyngiad sylweddol mewn dyraniad grant yn arwain at doriadau cynyddol a chynyddiadau uwch mewn treth y cyngor yn y dyfodol.

12.3 Mae cynyddu Treth y Cyngor 3.79%, y prisiadau ar gyfer pob band eiddo yw:

| **Band Treth** | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Treth y Cyngor £** | 166.14 | 193.83 | 221.52 | 249.21 | 304.59 | 359.97 | 415.35 | 498.42 | 581.49 |

12.4 Y praesept ar gyfer pob ardal bilio fydd:

| **Awdurdod Bilio** | **Sail Drethu** | **Praesept** |
|---|---|---|
| Cyngor Ynys Môn | 30,794.83 | £7,674,380 |
| Cyngor Gwynedd | 50,232.22 | £12,518,372 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 49,901.99 | £12,436,075 |
| Cyngor Bwrdeistref Sir Ddinbych | 39,274.89 | £9,787,695 |
| Cyngor Sir y Fflint | 63,543.00 | £15,835,551 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 53,116.00 | £13,237,038 |
| Cyfanswm | **286,862.93** | **£71,489,111.** |

**13. Goblygiadau**

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Bydd argymhellion yr adroddiad yn effeithio ar niferoedd o weithwyr yr Heddlu yn y dyfodol. |
| Ariannol | Diben yr adroddiad hwn yw argymell y Praesept a Threth y Cyngor ar gyfer 2017/18, ac i egluro'r ffactorau sydd wedi'u hystyried i wneud yr argymhelliad hwn. Er bod yr argymhelliad ar gyfer un flwyddyn ariannol, mae'n bwysig ystyried y sefyllfa tymor canolig i dymor hir i ddod i benderfyniad.<br><br>Mae adnoddau ariannol digonol yn hanfodol ar gyfer darparu Cynllun Heddlu a Throsedd ac i gyflawni ein gofynion cyfreithiol. |
| Cyfreithiol | Mae'r adroddiad hwn, ynghyd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn darparu gwybodaeth ddigonol ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd i wneud penderfyniad a fydd yn gallu wynebu heriau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| Risg | Mae'r adroddiad yn adnabod a gwerthuso'r risgiau o'r argymhellion. |
| Heddlu a Throsedd | Dim goblygiadau heddlu a throsedd ar wahan. |

**Atodiad A**

**Cyllideb Refeniw 2016-17 tan 2021-22**

| | | Cyllideb Blynyddol | +Cynnydd - Gostyngiad | Cyllideb Blynyddol | Cyllideb Blynyddol | Cyllideb Blynyddol | Cyllideb Blynyddol | Cyllideb Blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2016-17** | **2017-18** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** |
| | **Gwariant** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| | | | | | | | | |
| **1** | **Sefydliadu Cyflog Heddwas** | 72,736 | 1,372 | 74,108 | 74,930 | 76,126 | 76,837 | 77,682 |
| **2.1** | **Cyflog Staff yr Heddlu** | 33,941 | 587 | 34,528 | 34,876 | 35,228 | 35,584 | 35,943 |
| **2.2** | **Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu** | 7,290 | -483 | 6,807 | 6,875 | 6,944 | 7,013 | 7,083 |
| **3** | **Goramser Heddwas** | 1,839 | 150 | 1,989 | 1,989 | 1,989 | 1,989 | 1,989 |
| **4** | **Goramser Staff yr Heddlu** | 400 | 0 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| **5** | **Lwfansau** | 1,867 | -84 | 1,783 | 1,743 | 1,721 | 1,701 | 1,682 |
| **6** | **Hyfforddiant** | 665 | 13 | 678 | 692 | 706 | 720 | 734 |
| **7** | **Gweithiwr arall** | 678 | 16 | 694 | 708 | 722 | 736 | 751 |
| **8** | **Taliadau Pensiwn Uniongyrchol** | 3,102 | 62 | 3,164 | 3,227 | 3,292 | 3,358 | 3,425 |
| **9** | **Costau Ynni** | 1,349 | -233 | 1,116 | 1,149 | 1,184 | 1,219 | 1,256 |
| **10** | **Costau Rhedeg adeilad** | 6,260 | 342 | 6,602 | 6,734 | 6,869 | 7,007 | 7,147 |
| **11** | **Trwsio a Chynnal Cerbydau** | 865 | -253 | 612 | 624 | 636 | 649 | 662 |
| **12** | **Costau Rhedeg Cerbyd** | 1,995 | -155 | 1,840 | 1,909 | 1,982 | 2,057 | 2,136 |
| **13** | **Lwfansau Teithio a Char** | 728 | 15 | 743 | 661 | 676 | 691 | 707 |
| **14** | **Uned Cefnogaeth o'r Awyr** | 1,235 | -196 | 1,039 | 1,039 | 1,039 | 1,039 | 1,039 |
| **15** | **Cyfarpar** | 654 | 122 | 776 | 791 | 806 | 822 | 808 |
| **16** | **Dillad ac Iwnifform** | 465 | 9 | 474 | 484 | 494 | 504 | 514 |
| **17** | **Argraffu ac Offer Swyddfa** | 413 | 9 | 422 | 430 | 439 | 447 | 456 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **18** | **TG a Chyfathrebiadau** | 10,123 | -400 | 9,723 | 9,778 | 9,896 | 10,101 | 10,311 |
| **19** | **Cynhaliaeth** | 284 | 41 | 325 | 330 | 336 | 342 | 348 |
| **20** | **Gwasanaethau a Chyflenwadau Eraill** | 6,654 | 265 | 6,919 | 7,023 | 7,131 | 7,242 | 7,357 |
| **21** | **Gwasanaeth Fforensig** | 955 | 146 | 1,101 | 1,120 | 1,140 | 1,161 | 1,181 |
| **22** | **Taliadau Dyled a Chyfraniadau i Gyfalaf** | 1,504 | 360 | 1,864 | 1,864 | 1,864 | 1,864 | 1,861 |
| **23** | **Cronfa Sefyllfaoedd Arbennig** | 400 | 0 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| **24** | **Cronfa Chwyddiant a Chyffredinol** | 400 | 0 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| **25** | **Cronfa Diogelwch Cymunedol** | 1,166 | 0 | 1,166 | 1,166 | 1,166 | 1,166 | 1,166 |
| | | | | | | | | |
| | **Gwariant Gros** | **157,968** | **1,705** | **159,673** | **161,342** | **163,586** | **165,449** | **167,438** |

| | | **Cyllideb Blynyddol** | **+ Cynnydd - Gostyngiad** | **Cyllideb Blynyddol** | **Cyllideb Blynyddol** | **Cyllideb Blynyddol** | **Cyllideb Blynyddol** | **Cyllideb Blynyddol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2016-17** | **2017-18** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** |
| | **Incwm** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| | | | | | | | | |
| **26** | **Secondiad** | -4,161 | 114 | -4,047 | -4,047 | -4,047 | -4,047 | -4,047 |
| **27** | **Llog ar Falansau** | -271 | 75 | -196 | -150 | -150 | -150 | -150 |
| **28** | **Incwm** | -2,552 | 85 | -2,467 | -2,467 | -2,467 | -2,467 | -2,467 |
| **29** | **Grantiau Penodol** | -10,004 | 33 | -9,971 | -9,918 | -9,866 | -9,813 | -9,813 |
| | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Incwm** | **-16,988** | **307** | **-16,681** | **-16,582** | **-16,530** | **-16,477** | **-16,477** |
| | | | | | | | | |
| **30** | **Cronfa wrth gefn PFI** | 295 | -70 | 225 | 121 | 44 | -35 | -118 |
| **31** | **Cronfa wrth Gefn Ymwybyddiaeth Cyflymder** | -208 | 208 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **32** | **Ychwanegol o Gronfeydd wrth gefn** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | | |
| | **Gwariant Net** | **141,067** | **2,150** | **143,217** | **144,881** | **147,100** | **148,937** | **150,843** |
| | | | | | | | | |
| **33** | Cyfanswm Grantiau | -72,745 | 1,017 | -71,728 | -71,011 | -70,301 | -69,598 | -68,902 |
| **34** | Praesept | -68,322 | -3,167 | -71,489 | -73,460 | -75,484 | -77,565 | -79,703 |
| | | | | | | | | |
| | **Cronfa** | **-141,067** | **-2,150** | **-143,217** | **-144,471** | **-145,785** | **-147,163** | **-148,605** |
| | | | | | | | | |
| | Balans Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 410 | 905 | 459 | 464 |
| | Cronnus | | | 0 | 410 | 1,315 | 1,774 | 2,238 |

# Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig

## 2017-18 hyd 2021-22

Ionawr 2017

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn cysylltu Cynllun Plismona 2017-2021 a'r Blaenoriaethau Plismona a gytunwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl gyda'r Strategaeth Ariannol (Atodiad A) a'r adnoddau sydd ar gael.

### 1.2 Nod

Nod y papur hwn yw rhoi manylion am sut y cafodd y gyllideb ei mantoli hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer cynnal cyllideb fantoledig yn y tymor canolig a'r tymor hirach, ar yr un pryd a sicrhau y cyflawnir blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.


### 1.3 Cefndir

Mae Rhaglen Cyni Cyllidol y Llywodraeth, a ddechreuodd yn 2011, wedi arwain at doriadau ariannol sylweddol ar draws y sector cyhoeddus. Y gostyngiad ariannol gwreiddiol y cynlluniwyd ar ei gyfer yng Nghyllideb yr Heddlu dros 4 blynedd (2011-12 hyd 2014-15) Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (ACW) 2010 oedd 12%, y gwir ostyngiad mewn grantiau hyd ddiwedd 2015-16 oedd 20.6%. Lleddfodd lefel y toriadau rywfaint yn 2016-17 gyda thoriad pellach o 0.6% yn Arian Grant yr Heddlu.

1.4 Cynyddodd Awdurdod yr Heddlu Dreth y Cyngor 4% yn 2011 -12 a 2.5% yn 2012-13. Cododd 4% eto yn 2013-14 er mwyn galluogi buddsoddi £1.8m mewn 51 swydd Swyddog Heddlu ychwanegol. Yn 2014-15 codwyd Treth y Cyngor 2% ac yn 2015-16, yn dilyn toriad o 5.1% mewn grant, cafodd ei godi eto 3.44%. Cytunwyd ar gynnydd o 2% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2016-17, gyda £1.4m yn cael ei fuddsoddi mewn swyddi rheng flaen. Mae'r tabl isod yn dangos y toriadau a wnaed hyd yma er mwyn mantoli'r gyllideb:

| Blwyddyn | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Toriadau a Wnaed | £4.678m | £6.016m | £4.634m | £4.325m | £4.448m | £2.838m | £26.939m |

1.4 Bydd toriadau gwerth £26.939m wedi'u gwneud erbyn diwedd 2016-17, gyda £3.2m wedi'i fuddsoddi mewn swyddi rheng flaen. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad mewn termau real o 17.4% yn y gyllideb hollgynhwysfawr dros gyfnod o 6 mlynedd. Mae'r siart isod yn dangos yn gryno ymhle y gwnaed yr arbedion. Mae 50% o'r arbedion wedi dod o ostyngiad mewn staff sy'n cyfateb i 338 o swyddi ac mae'r toriadau heb fod yn staff wedi dod o bob maes o weithgaredd.




1.5 Cynhaliodd y Llywodraeth ddau adolygiad sylweddol yn ystod yr haf 2015 a fyddai’n pennu lefel grantiau’r Llywodraeth ar gyfer plismona yn y blynyddoedd i ddod. Yn Adolygiad Gwariant 2015 edrychwyd ar ddyraniad cyllideb pob un o Adrannau’r Llywodraeth, gan gynnwys y cyfanswm oedd ar gael ar gyfer plismona. Arweiniodd yr adolygiad gwariant hwnnw at y toriad o 0.6% i grant Heddluoedd yn 2016-17, gydag ymrwymiad bod cyllid y dyfodol gael ei osod fel nad yw Heddluoedd yn wynebu gostyngiadau arian parod cyn belled bod comisiynwyr heddlu a throsedd yn codi’r praesept gymaint â phosibl.

1.6 Cynhaliodd y Swyddfa Gartref adolygiad o Fformiwla Ariannu’r Heddlu, sef y fformiwla sy'n pennu sut y mae’r Swyddfa Gartref yn rhannu’r arian sydd ar gael ar gyfer plismona rhwng yr ardaloedd plismona. Cafodd yr adolygiad o’r Fformiwla ei ohirio ar ôl i Heddluoedd godi materion perthnasol i gywirdeb y fformiwla arfaethedig. Mae’r adolygiad erbyn hyn wedi ailgychwyn gyda’r bwriad o ddefnyddio fformiwla newydd yn 2018-19.

## 2. Y Broses Gynllunio.

2.1 Caiff y broses o adnabod, cytuno ar a gweithredu arbedion ei sefydlu fel rhan o fusnes arferol. Y Bwrdd Cynllunio Strategol sy’n llywodraethu hyn ac is-grŵp o’r bwrdd sy’n ei weinyddu. Yn ychwanegol at y cynlluniau ar gyfer gwneud arbedion oedd eisoes wedi'u sefydlu, cynhaliwyd adolygiad o gyllidebau cyflogau, yn benodol er mwyn edrych ar y rhagamcanion ar gyfer cynyddrannau wedi'u haddasu ar gyfer y nifer disgwyliedig o staff a fyddai’n gadael a'r cynllun recriwtio. Yn ychwanegol cynhaliwyd ymarfer cyllidebu sylfaen sero ar gyllidebau TG, Cyfleusterau a’r Fflyd ac elfennau o’r gyllideb Cyflenwadau a Gwasanaethau er mwyn cadarnhau’r arbedion yn y cynllun ac er mwyn dod o hyd i arbedion pellach os yn bosibl.

2.2 Am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn cynhaliwyd proses ffurfiol er mwyn adnabod gofynion newydd. Mae gofynion plismona’n newid yn gyson ac mae’n rhaid dod o hyd i’r arian ar eu cyfer drwy ailddyrannu neu ail-flaenoriaethu'r adnoddau sydd ar gael, neu o dwf os oes arian ychwanegol ar gael. Gwahoddwyd arweinwyr gwasanaethau i gyflwyno ceisiadau, cafodd y rhain eu hadolygu gan gymheiriaid, eu

blaenoriaethu gan ddefnyddio matrics sgorio a barn broffesiynol a'u craffu arnynt yng nghyfarfod gosod cyllideb yr Uwch Swyddogion cyn y cyflwynwyd y cynigion terfynol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

2.3 Yn ychwanegol at yr uchod, aethpwyd drwy'r broses arferol ar gyfer datblygu gofynion ariannol y dyfodol ac mae'r manylion i'w gweld yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn. Wrth ddatblygu'r CATC hwn, ystyriwyd y canlynol:

- Blaenoriaethau Lleol a Chenedlaethol fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Heddlu a Throsedd Drafft a Chynllun Gweithredu'r Heddlu 2017-18
- Pwysau newydd ac sy'n datblygu
- Y broses gynllunio strategol
- Strategaethau eraill yr Heddlu
- Yr hinsawdd economaidd gyfredol
- Amcangyfrifon o'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
- Rhagolygon cyllidol ar gyfer y cyfnod, gan gynnwys dyfarniadau cyflogau
- Y sefyllfa ariannol bresennol
- Y Rhaglen Gyfalaf, y Cod Materion Ariannol a'u heffaith ar y Gyllideb Refeniw.
- Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau
- Cynhyrchu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
- Cydweithio

2.5 Roedd y broses uchod wedi'i chwblhau erbyn canol mis Tachwedd 2016 gyda chyllidebau drafft wedi'u trafod yn fanwl gan Dîm y Prif Swyddogion ac Arweinwyr Gwasanaethau ar 23 Tachwedd 2016. Trafodwyd y cynigion gan Brif Swyddogion Ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar 24 Tachwedd 2016. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u cynrychiolwyr ar 30 Tachwedd er mwyn trafod y cynigion cyllidebol. Cyhoeddwyd ffigyrau Grant y Llywodraeth ar 15 Rhagfyr 2016. Cytunwyd ar y cynigion terfynol ar 20 Rhagfyr mewn cyfarfod rhwng y Comisiynydd a'i staff a Thîm yr Uwch Swyddogion.

2.6 Mae rhannau nesaf yr adroddiad yn rhoi manylion ynghylch yr holl ddatblygiadau ers y CATC blaenorol, gan roi'r sefyllfa ddiweddaredig ar gyfer Refeniw, Cyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn.

**3. Cyllideb 2016-17**

3.1 Cafodd yr arian a geir gan y Llywodraeth ei dorri 0.6% yn 2016-17; codwyd Treth y Cyngor 2%. Roedd y gyllideb gyfan o £141.067m yn gynnydd ariannol o 0.89% o gymharu â chyllideb y flwyddyn flaenorol. Er mwyn mantoli cyllideb 2016-17 gwnaed gwerth £2.838m o doriadau. Mae'r rhain yn anelu at y targed o gael eu cyflawni a'r rhagamcaniad presennol yw tanwariant yn erbyn y gyllideb wreiddiol o £1.082m, a hynny oherwydd y llwyddwyd i wneud rhai arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2017-18 yn gynt na'r disgwyl; trosiant staff uwch na'r disgwyl a rhywfaint o incwm 'unwaith yn unig' ychwanegol. Mae'r toriadau a wnaed i'w gweld isod:

| **Toriadau a wnaed yn 2016 -17** | |
|---|---|
| Adolygiad Gwasanaethau Busnes | £0.237m |
| Adolygiad Gwasanaethau Corfforaethol | £0.326m |
| Dyfodol Gweithredol Gwasanaethau Plismona Lleol | £0.114m |
| Cefnogaeth Wyddonol | £0.270m |
| Dyfodol Cyfathrebiadau | £0.180m |
| Ystadau | £0.266m |
| Cerbydau a Chludiant | £0.075m |
| Dadansoddwyr | £0.027m |
| Goramser | £0.150m |
| Y Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol | £0.099m |
| Arlwyo | £0.050m |
| Adolygiad o Reolaeth Gwasanaethau Cefnogi | £0.215m |
| Gwasanaethau Trosedd | £0.147m |
| Caffael | £0.015m |
| Cynhyrchu Incwm | £0.200m |
| Trwyddedu Drylliau Tanio | £0.203m |
| Eiddo wedi'i Atafaelu | £0.012m |
| Arbedion Effeithlonrwydd Targedig | £0.345m |
| **Cyfanswm** | **£2.838m** |

3.2 Bydd Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi (AHEM) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn cynnal adolygiadau blynyddol o sefyllfa ariannol yr Heddlu, y broses gynllunio, yr arbedion a wnaed eisoes a'r arbedion sydd eto i'w gwneud. Rhoddir crynodeb o'r adolygiadau a'r archwiliadau hyn isod.

3.3 Mae adolygiadau *'Valuing the Police'* AHEM bellach wedi'u hymgorffori yn eu rhaglen adolygu newydd, sef adolygiadau PEEL (Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb). Y cwestiwn cyffredinol parthed effeithlonrwydd y mae AHEM yn ei ofyn yw 'Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddau?", gyda'r diffiniad o 'effeithlonrwydd' fel a ganlyn: 'bydd heddlu effeithlon yn sicrhau'r deilliannau gorau bosibl gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo.' Y tri chwestiwn sylfaenol i'r asesiad yw:

1. Pa mor dda mae'r heddlu'n deall y galw presennol a'r galw tebygol yn y dyfodol?
2. Pa mor dda mae'r heddlu'n defnyddio ei adnoddau i reoli'r galw presennol?
3. Pa mor dda y mae'r heddlu'n cynllunio ar gyfer galw yn y dyfodol?

3.4 Caiff perfformiad heddluoedd ei raddio fel '*rhagorol*', *'da'*, '*angen gwella'* neu *'ddim digon da'*. Y radd gyffredinol a gafwyd oedd 'da'. Amlygwyd un maes lle mae angen gwella sef: *"Dylai Heddlu Gogledd Cymru barhau i archwilio gallu ei weithlu ac yna ddangos ei fod wedi gwneud defnydd o'r gwaith hwnnw er mwyn adnabod unrhyw fylchau mewn sgiliau a sefydlu cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'r rhain. Bydd hyn yn galluogi'r heddlu i fod yn hyderus yn ei allu i gwrdd yn effeithlon a'r galw*

*presennol a'r galw tebygol yn y dyfodol.'* Rhoddwyd sylw i hyn fel rhan o'r broses gynllunio a bydd yn cael sylw parhaus fel rhan o fusnes arferol. Mae crynodeb o sylwadau AHEM i'w weld isod:

*'Aseswyd effeithlonrwydd Heddlu Gogledd Cymru fel 'da' o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddau. Mae'n cydnabod pwysigrwydd bod â gwell dealltwriaeth o'r galw presennol am ei wasanaethau fel y gall ddefnyddio ei adnoddau'n effeithlon er mwyn blaenoriaethu ac ymateb i alw. Mae'r heddlu wedi adnabod yr angen i ganolbwyntio ar feysydd newydd o alw sy'n dechrau dod i'r amlwg ac wedi bod yn llwyddiannus o ran mynd i'r afael â bylchau yn ei weithlu ar gyfer y rhan fwyaf o raddau a rolau arbenigol. Mae gan yr heddlu hanes cadarnhaol o wireddu arbedion ar gyfer y dyfodol ac mae ei gynlluniau'n seiliedig ar ragdybiaethau cadarn.*

Gellir gweld yr asesiad llawn yn: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/peel-assessments/peel-2016/north-wales/efficiency/

3.5 Gwnaeth LlCC y sylwadau canlynol am eu hasesiad gwerth am arian yn eu llythyr archwilio blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016:

*'Rwy'n fodlon bod y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau priodol yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau'r defnydd darbodus, effeithlon ac effeithlon o'u hadnoddau'*

*'Llwyddodd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i gwrdd â'r cyllidebau refeniw a osodwyd ar gyfer 2015-16 ac maent yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i heriau ariannol sylweddol'*


Gellir gweld y llythyr archwilio blynyddol yn:
http://www.northwales-pcc.gov.uk/en/Information/What-we-spend-and-How-we-spend-it.aspx

3.6 Mae'r ddau asesiad yn dangos bod y toriadau'n cael eu rheoli a bod yr Heddlu'n perfformio'n dda o ran sicrhau'r deilliannau gorau bosibl gyda'r adnoddau sydd ar gael.

## 4. Dyraniad Cyllid

4.1 Ni roddodd y Llywodraeth Ddyraniadau Cyllid Darpariaethol ar gyfer 2017-18 fel rhan o setliad 2016-17. Fodd bynnag, mewn llythyr at CHTh a Phrif Gwnstabliaid dywedodd yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Plismona: *"a chymryd i ystyriaeth y cyfle sydd gennych i godi treth y cyngor yn lleol, mae hyn yn golygu gwir setliad gwastad ar gyfer plismona yn ei gyfanrwydd."* Yn seiliedig ar hyn cafodd amcangyfrif o doriad o 1% ei gynnwys yn CATC Ionawr 2016. Mae hyn i'w weld yn y graff isod o ddogfen Adolygiad o Wariant y Trysorlys sy'n dangos bod canran y cyllid hollgynhwysfawr a glustnodir i'r ardaloedd plismona yn gostwng dros flynyddoedd y cyfnod cynllunio.

**Chart 1.8: Police Resource Funding (£m) England and Wales**




Note: Precept levels subject to local Police and Crime Commissioner decisions

4.2 Gwnaed y cyhoeddiad ynghylch cyllid 2017-18 ar 15 Rhagfyr 2016. Torrwyd arian grant pob ardal blismona 1.4%, bu modd i'r Llywodraeth gadw at eu haddewid o sefyllfa ariannol gyffredinol wastad o ganlyniad i gynnydd uwch na'r disgwyl yn y sylfaen drethi fel yr eglurir yn y dyfyniad isod o'r cyhoeddiad:

*'Yn dilyn yr egwyddorion a amlinellwyd ar 4 Chwefror 2016 pan gyhoeddwyd y setliad ariannol terfynol ar gyfer heddluoedd yn 2016/17 [HCWS510] bydd cyllid uniongyrchol ar gyfer pob CHTh, gan gynnwys y praesept, yn cael ei ddiogelu ar lefelau gwastad o gymharu â 2015/16, a chymryd fod incwm o'r praesept yn cael ei godi i'r lefel uchaf bosibl yn 2016/17 a 2017/18. Ni fydd unrhyw CHTh sy'n dewis codi'r praesept gymaint â phosibl yn y ddwy flynedd yn wynebu gostyngiad mewn nawdd ariannol y flwyddyn nesaf o gymharu â 2015/16. Rydym wedi diweddaru ein rhagolygon parthed y praesept ar gyfer 2017/18 ers mis Chwefror er mwyn adlewyrchu gwir gynnydd yn y sylfaen drethi yn 2016/17."*

4.2 Cododd cyfanswm cyllid yr Heddlu 1.69%, fodd bynnag oherwydd bod peth cyllid wedi'i ddiogelu a chynnydd o 42% yn y symiau a frigdorrwyd i ariannu mentrau'r Swyddfa Gartref, roedd gostyngiad o 1.4% yn yr arian a gafodd heddluoedd. Mae manylion ynghylch cyllid ar gyfer plismona yn genedlaethol i'w gweld yn y tabl isod.

| | 2016-17 | 2017-18 | Amr. | Amr. |
|---|---|---|---|---|
| | £miliwn | £miliwn | £miliwn | % |
| | | | | |
| | | | | |
| **Cyllid Llywodraeth Ganolog** | **8,356** | **8,497** | **141** | **1.69%** |
| | | | | |
| **Cronfa Trawsnewid ac arian arall a ail-glustnodwyd** | **572** | **812** | **240** | **41.96%** |
| | | | | |
| Cyllid Uniongyrchol sy'n cynnwys: | 7,784 | 7,685 | -99 | -1.27% |
| NICC (cyllid Prif Ddinasoedd) | 178 | 178 | 0 | 0.00% |
| Cyllid Fformiwla | 7,061 | 6,962 | -99 | -1.40% |
| Grantiau Treth y Cyngor etifeddol | 545 | 545 | 0 | 0.00% |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Canolog** | **8,356** | **8,497** | **141** | **1.69%** |
| | | | | |
| Rhagdybiaeth Praesept SG | 3,194 | 3,307 | 113 | 3.54% |
| | | | | |
| CYFANSWM (Cyllid Uniongyrchol +Praesept) | 10,978 | 10,992 | 14 | 0.13% |

4.3 Mae'r symiau a frigdorrwyd i'w gweld isod:

| **Brigdorri** | **2017-18** |
|---|---|
| PFI | £73m |
| Rhaglenni Technoleg yr Heddlu (gan gynnwys ESN) | £417m |
| Cyrff 'hyd braich' (AHEM, CCAH) | £54 |
| Atgyfnerthu'r ymateb i droseddau trefnedig | |
| Cronfa Trawsnewid yr Heddlu | £175.6m |
| Grant Arbennig | 50m |
| Mechnïaeth Cyn-cyhuddo | £15m |
| **Cyfanswm** | **£812m** |

4.6 Mae canlyniad y cyhoeddiad ariannol ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru i'w weld isod:

- Gostyngiad gwastad o 1.4% i bob ardal blismona. Mae hyn yn golygu gostyngiad mewn grant o £1.017m i Ogledd Cymru
- Yn ychwanegol at yr uchod bydd yr Ardoll Prentisiaethau yn ychwanegu cost o £0.426m a bydd cynnydd mewn cyfraddau busnes yn arwain at gynnydd o £0.121m mewn costau.
- Mae 'brigdorri' yn gyffredinol wedi codi o £572m i £812m ac yn awr yn cynnwys symiau tuag at uwchraddio system gyfathrebiadau'r heddlu'n genedlaethol.
- Torrwyd y Grant Cyfalaf o £0.541m i £0.462m, gostyngiad o £0.079m, yn dilyn gostyngiad o £0.360m yn y flwyddyn flaenorol.

- Bydd heddluoedd Lloegr yn parhau i dderbyn nawdd treth cyngor etifeddol o £545m
- Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau ynghylch cyllid y dyfodol na’r fformiwla ariannu.

4.7 Yn seiliedig ar y cyfansymiau a roddwyd a chyhoeddiad eleni, amcangyfrifir y bydd toriad pellach o 1% mewn grantiau ym mhob un o'r pedair blynedd i ddod. Mae hyn yn seiliedig ar ragdybiaeth y llywodraeth y bydd treth y cyngor yn cael ei godi o leiaf 2% yn lleol fel nad oes unrhyw ostyngiad ariannol cyffredinol yng nghyllid yr heddlu.

4.6 Mae Fformiwla Ariannu’r Heddlu’n cael ei adolygu gyda’r bwriad y bydd fformiwla newydd ar waith yn 2018-19. Yn ôl yr ymarfer a gynhaliwyd yn 2015-16 byddai cyfran yr arian a fyddai wedi'i glustnodi ar gyfer Gogledd Cymru wedi codi o 1.03% i 1.06%; newid canrannol bychan yw hwn ond yn seiliedig ar gyllid 2015-16 byddai wedi golygu £2m yn ychwanegol. Fodd bynnag daeth i’r amlwg fod y Swyddfa Gartref wedi defnyddio’r data anghywir yn ei gyfrifiadau ac arweiniodd hynny at gyhoeddiad gan y Gweinidog Plismona ar y pryd y byddai’r broses yn cael ei gohirio ac y byddai dyraniadau 2016-17, a rŵan 2017-18 yn cael eu gwneud mewn ffordd debyg i’r blynyddoedd blaenorol. Byddai hyn yn golygu’r un toriad canrannol i bob heddlu.

4.7 Mae rhagor o waith ac ymgynghori ar y gweill ar y cynigion parthed y fformiwla ariannu. Mae hyn yn golygu y bydd ansicrwydd parhaus o ran lefel y cyllid ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru hyd nes y gwneir penderfyniad terfynol ynglŷn â fformiwla ariannu ddiwygiedig. Bydd y cynnig yn cynnwys argymhellion ynghylch sut i symud oddi wrth y dull dyrannu presennol at un diwygiedig. Dyma’r risg mwyaf i’r gyllideb ar hyn o bryd; pe bai’r fformiwla bresennol yn cael ei defnyddio byddai’n golygu gostyngiad o £10m yn y grant a delir ar hyn o bryd fel 'grant llawr'. Ni chafwyd unrhyw fanylion hyd yma, ond disgwylir y ceir rhai manylion yn Chwefror 2017. Os bydd y fformiwla ddiwygiedig yn arwain at ostyngiadau sylweddol yng ngrant y Llywodraeth ar gyfer Gogledd Cymru, bydd yn golygu toriadau ychwanegol a chynnydd uwch yn Nhreth y Cyngor.

## 5. Treth y Cyngor a’r Praesept

5.1 Mae dwy brif elfen i gyfanswm cyllideb net yr Heddlu, sef cyfanswm Grantiau'r Heddlu a'r Praesept. Mae’r cynigion cyllidebol yn cynnwys cynnydd o 3.78% yn Nhreth y Cyngor. Mae’r sylfaen drethi ar gyfer Gogledd Cymru i gyd wedi codi 0.89%, sy’n golygu cynnydd cyffredinol o 4.64% yn y praesept a chyfanswm cyllideb net o £143.217 i’r Heddlu a’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd – gweler isod:

| **2017-18** |
| --- |

| | £miliwn | % |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Grantiau'r Llywodraeth** | 71.728 | 50.1% |
| **Cyfanswm Praesept** | 71.489 | 49.9% |
| **Cyfanswm Gofyniad Cyllidebol** | 143.217 | |

5.2 Cyfrifir Treth y Cyngor drwy rannu cyfanswm y gofyniad praesept gyda'r sylfaen drethi - mae'r sylfaen drethi yn seiliedig ar yr holl eiddo Band D sydd ym mhob ardal blismona. Darperir y sylfaen drethi gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Mae'r sylfaen drethi ar gyfer 2017-18 wedi codi ychydig o 0.89%. Mae hyn yn golygu bod y cynnydd canrannol yn y praesept ychydig yn uwch na'r cynnydd canrannol yn nhreth y cyngor.

5.3 Mae'r rheolau ar gyfer cyfyngu ar y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, a elwir yn 'rheolau capio', yn wahanol ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn ychwanegol, mae grantiau ar wahân wedi bod ar gael i ardaloedd plismona yn Lloegr os oeddent yn cytuno i gyfyngu ar gynnydd yn Nhreth y Cyngor. Roedd y grantiau hyn yn cael eu talu'n flaenorol gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ond erbyn hyn maent i raddau helaeth wedi'u cynnwys yn Grant y Swyddfa Gartref ac yn gyfanswm o £545m yn 2017-18. Treth y Cyngor Gogledd Cymru yw'r uchaf yng Nghymru a Lloegr ond pe ystyrid y Grantiau Treth y Cyngor etifeddol hyn, 6ed uchaf fyddai Gogledd Cymru.

5.5 Mae'r rheolau capio yn Lloegr wedi'u cyhoeddi a phe bai Treth y Cyngor yn cael ei godi fwy na 2% byddai'n rhaid cynnal refferendwm, er y bydd y 10 ardal blismona sydd â'r Treth y Cyngor isaf yn cael caniatâd i godi treth y cyngor £5 a phe baent yn gwneud hynny byddai'n golygu cynnydd o rhwng 3.12% a 5.36% i'r ardaloedd plismona hynny.

5.6 Nid oes unrhyw reolau capio wedi'u cyhoeddi yng Nghymru. Yn y gorffennol nid yw Llywodraeth Cymru wedi herio cynnydd o dan 5%. Nid oes Grant Gostwng Treth y Cyngor ar gael yng Nghymru.

5.7 Mae'r Swyddfa Gartref wedi cymryd y byddai'r ardaloedd plismona yn codi treth y cyngor 2% (neu £5 ar gyfer y 10 ardal blismona gyda'r dreth cyngor isaf) ac y byddai'r sylfaen drethi yn codi 0.5% er mwyn rhoi'r sefyllfa 'ariannol wastad' a gyhoeddwyd fel rhan o Ddatganiad yr Hydref.

## 6. Cyllideb 2017-18 a Chyllideb Gynlluniedig 2018-19 a 2021-22

6.1 Mae crynodeb o'r Gyllideb a newidiadau ar gyfer 2016-17 a'r blynyddoedd i ddod i'w weld yn Atodiad B.

6.2 Mae'r prif ragdybiaethau fel y'u nodwyd yn y CATC blaenorol fel a ganlyn:

- Chwyddiant blynyddol o 1% ar gyflogau o fis Medi
- Chwyddiant cyffredinol o 2%, chwyddiant penodol wedi'i gynnwys os yn hysbys
- Cynnydd o 3.8% yn Nhreth y Cyngor yn 2017-18 a 2.5% o 2018-19 hyd 2021-22
- Gostyngiad grant o 1.4% yn 2017-18 a gostyngiad o 1% yn y blynyddoedd wedyn.
- Cynnydd o 0.25% yn y sylfaen drethi o 2018-19 ymlaen.

6.3 Mae'r holl ragdybiaethau wedi'u hadolygu a'u diwygio i adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf. Cynhaliwyd adolygiad manwl o'r chwyddiant sydd wedi'i gynnwys. Mae chwyddiant cyflogau yn 1% o hyd a gosodwyd chwyddiant ar gyfer 2017-18 ar darged y Llywodraeth o 2%. Mae cost ychwanegol o 0.5% o gyflogau wedi'i gynnwys ar gyfer yr Ardoll Prentisiaethau. Mae hyn wedi arwain at gost ychwanegol o £0.431m. Aseswyd chwyddiant ym mhob maes ac arweiniodd hynny at ostyngiad o £0.373 yn yr amcangyfrif gwreiddiol o ganlyniad i ostyngiadau mewn tanwydd, ynni a lwfansau.

6.4 Y gostyngiad grant ar gyfer 2017-18 yw 1.4 ac amcangyfrifir yn awr y bydd gostyngiad pellach o 1% ym mhob un o'r blynyddoedd dilynol. Mae hyn yn seiliedig ar yr ymrwymiad i ddyfarnu grant a fydd yn rhoi setliad gwastad cyn belled ag y bydd Treth y Cyngor yn codi 2% (neu £5) a'r sylfaen drethi'n codi 0.5% Os bydd y Llywodraeth yn penderfynu brigdorri'r swm a ddyrennir i Heddluoedd eto fyth, byddai hyn yn lleihau grantiau o fwy na 1%, fodd bynnag cynyddodd y swm a frigdorrwyd 42% yn 2017-18 felly nid oes disgwyl y byddai cynnydd tebyg mewn blynyddoedd i ddod.

**6.5** **Arbedion –** Datblygwyd cynllun arbedion ar gyfer 2017-18 gwerth £2.077m. Datblygwyd y cynlluniau hyn ymhellach yn ystod y flwyddyn, gydag ymarfer cyllidebu sylfaen sero'n cael ei gynnal ar TG, Ystadau, y Fflyd a rhai elfennau o Gyflenwadau a Gwasanaethau. Effaith hollgynhwysfawr hyn oedd cynllun arbedion gwerth £2.686m. Mae'r ffrydiau gwaith penodol i'w gweld isod:

| **Newid rhwng y cynllun arbedion gwreiddiol a'r terfynol 2017-18.** | **Ionawr 2016** | **Ionawr 2017** |
|---|---|---|
| Cyllideb TG | 210 | 550 |
| Cyllid ac Adnoddau | 726 | 534 |
| Adolygiad o Wasanaethau Corfforaethol | 26 | 26 |
| Dyfodol Gweithredol Gwasanaethau Plismona Lleol | 81 | 81 |
| Dyfodol Gweithredol SCCH | 517 | 546 |
| Ystadau | 68 | 78 |
| Cerbydau a Chludiant | 228 | 240 |
| Y Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol | 196 | 196 |
| Dyfodol Cyfathrebiadau | 25 | 25 |
| Caffael | 0 | 25 |
| Swyddogion Cyswllt Ysgolion (Gostyngiad mewn grant) | 0 | 68 |
| Arbedion ychwanegol o ddiswyddiadau gwirfoddol 2015-16. | 0 | 317 |
| | | |
| **Cyfanswm** | 2,077 | 2,686 |

6.5 **Twf –** mae'r ffocws wedi bod i raddau helaeth iawn ar doriadau dros y 6 blynedd ddiwethaf, gyda chyfanswm o £26,939m wedi'i dorri o'r gyllideb. Fodd bynnag, mae mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn gofyn am adnoddau ychwanegol mewn rhai meysydd penodol o waith. Yn y blynyddoedd diweddar gwnaed hyn drwy ail-flaenoriaethu o fewn y gwasanaethau. Yn 2017-18 gofynnwyd i Arweinwyr Gwasanaethau gyflwyno ceisiadau ar gyfer gofynion newydd neu ychwanegol. Derbyniwyd a chraffwyd ar geisiadau gwerth cyfanswm o £3.1m ar ôl iddynt gael eu craffu arnynt yn gyntaf gan Uwch Dimau Rheoli'r meysydd gwasanaeth. Roedd modd ariannu cyfanswm o £1.277 o'r adnoddau a amlinellwyd yn y CATC blaenorol – gweler isod.

| **Disgrifiad** | **Swyddog** | **Staff** | **Cost £'000** |
|---|---|---|---|
| Carchar Wrecsam | 3 | | 185 |
| Adran Hyfforddiant | 1 | 3 | 138 |
| Rheolwr Datblygu Gwybodaeth Reoli | | 1 | 50 |
| Cynnal offer fideo a wisgir ar y corff | | | 40 |
| Costau ymchwilio | | | 148 |
| Profion cyffuriau ar ochr y ffordd | | | 157 |
| Swyddogion dalfeydd | | 2 | 81 |
| Ailstrwythuro'r Adran Safonau Proffesiynol | | 3 | 64 |
| Staff Ystafell Reoli | | 6 | 220 |
| Adran Gyfreithiol | | 1.2 | 66 |
| Swyddog Cyfathrebiadau Mewnol | | 1 | 35 |
| Tîm AHEM yr Heddlu | 1 | 1 | 93 |
| **Cyfanswm** | **5** | **18.2** | **1,277** |

6.6 Cafodd cyfres ychwanegol o geisiadau eu dosbarthu fel rhai ychwanegol at y gofynion cyfredol o ganlyniad i flaenoriaethau cenedlaethol neu leol yn ogystal â meysydd newydd o droseddau sy'n dod i'r amlwg. Roedd y rhain at ei gilydd yn dod i gyfanswm o ychydig dros £1m ac maent wedi'u nodi isod. Mae'r angen ychwanegol i atal, adnabod ac ymchwilio i ecsbloetiad pobl ddiamddiffyn sydd wedi'i ddynodi'n flaenoriaeth genedlaethol yn ogystal â lleol ac sydd hefyd yn cynnwys ecsbloetio ar-lein, wedi rhoi pwysau ar adnoddau ditectifs yn y blynyddoedd diweddar (Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn - PVPU). Mae'r tri chais cyntaf isod wedi'u targedu'n uniongyrchol ar y meysydd hyn; mae'r pedwerydd yn gynnydd mewn Ditectifs Dan Hyfforddiant sy'n angenrheidiol er mwy hyfforddi swyddogion fel y gellir llenwi swyddi gwag yn y dyfodol. Mae'r bumed linell yn ymwneud â'r angen i sefydlu tîm i ymgymryd â gwaith rhagweithiol mewn cymunedau lleol ar draws ardal yr Heddlu er mwyn delio â throseddwyr problemus lefel is.

| **Disgrifiad** | **Swyddog** | **Staff** | **Cost £'000** |
|---|---|---|---|
| Cydlynydd Atal Caethwasiaeth Modern | 1 | | 63 |
| Ditectif Arolygydd, PVPU | 1 | | 71 |
| Ymchwilwyr MIT/PVPU - Staff | | 6 | 261 |
| Swyddi Ditectifs Dan Hyfforddiant | 5 | | 256 |
| 10 Swyddog Ymateb Rhagweithiol | 10 | | 350 |
| **Cyfanswm** | **17** | **6** | **1,001** |

6.7 Effaith hollgynhwysfawr yr arbedion, chwyddiant a thwf anochel yn ogystal â gofynion newydd yw cynnydd yn y gyllideb o 1.5%. Mae hyn wedi'i grynhoi yn y tabl isod.

| | **2016-17** | **2017-18** | **% Newid** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | |
| Gwariant Gros | 157,968 | 159,673 | 1.1% |
| Grantiau a Chronfeydd wrth gefn | -16,901 | -16,456 | -2.6% |
| | | | |
| Gwariant Net | 141,067 | 143,217 | 1.5% |
| | | | |
| Grantiau | -72,745 | -71,728 | -1.4% |
| Praesept | -68,322 | -71,489 | 4.6% |
| | | | |
| **Cyfanswm Cyllid** | **-141,067** | **-143,217** | **1.5%** |

6.8 Mae'r newid hollgynhwysfawr yn y gyllideb wedi'i grynhoi yn y tabl isod.

| | **£'000** |
|---|---|
| **Cyllideb Net 2016-17** | **141.067** |
| Chwyddiant Cyflogau (1%) | 1.107 |
| Heb fod yn gyflogau | 0.533 |
| Chwyddiant Penodol a Thwf Anochel | 1.291 |
| Wedi'u hailddosbarthu ar gyfer twf | 1.277 |
| Gofynion newydd ar gyfer twf | 1.001 |
| Chwyddiant wedi'i ddidynnu | -0.373 |
| Arbedion a wnaed | -2.686 |
| **Cyllideb Net 2017-18** | **143.217** |

6.6 Mae gwaith ychwanegol wedi'i wneud ar gyllidebau rhagamcanol 2018-19 hyd 2021-22 yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a nodir uchod. Gwnaed gwaith manwl ar gostau cynyddrannol ac arbedion o gyllidebau plismona a staff ac o ganlyniad bu modd gwneud addasiadau er mwyn cynnwys nawdd swyddogion ar brawf yn y gyllideb sylfaen yn hytrach na'u hariannu o arbedion a wnaed yn sgil trosiant fel yn y blynyddoedd diwethaf. Lle mae arbedion y dyfodol wedi'u cadarnhau, mae'r rhain hefyd wedi'u tynnu o'r gyllideb Mae'r cyllidebau rhagamcanol diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2017-18 hyd 2021-22 i'w gweld isod.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwariant Gros** | 157,968 | 159,673 | 161,342 | 163,586 | 165,449 | 167,438 |
| **Incwm a Chronfeydd wrth Gefn** | -16,901 | -16,456 | -16,461 | -16,486 | -16,512 | -16,595 |
| | | | | | | |
| **Gwariant Net** | 141,067 | 143,217 | 144,881 | 147,100 | 148,937 | 150,843 |
| | | | | | | |
| **Grant** | -72,745 | -71,728 | -71,011 | -70,301 | -69,598 | -68,902 |
| **Praesept** | -68,322 | -71,489 | -73,460 | -75,484 | -77,565 | -79,703 |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid** | -141,067 | -143,217 | -144,471 | -145,785 | -147,163 | -148,605 |
| **Toriadau Cronnus Angenrheidiol** | 0 | 0 | 410 | 1,315 | 1,774 | 2,238 |
| **Toriadau Blynyddol:** | | | 410 | 905 | 459 | 464 |

6.6 Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a nodwyd bydd angen dod o hyd i arbedion ychwanegol o £2.238 miliwn er mwyn mantoli'r gyllideb o 2018-19 hyd 2021-22. Mae'r cynllun arbedion presennol wedi'i ymestyn y tu hwnt i 2019-20 i 2021-22. Bydd angen gwneud arbedion yn y dyfodol wrth i ragor o newidiadau ddigwydd mewn plismona; yn seiliedig ar y rhagdybiaethau presennol bydd modd buddsoddi arbedion effeithiolrwydd mewn plismona rheng flaen. Fodd bynnag mae cyllid y dyfodol yn ansicr o ganlyniad i'r adolygiad o'r fformiwla ariannu a'r hinsawdd economaidd bresennol, yn arbennig yn dilyn pleidlais Brexit. Pe digwydd bod y rhain yn arwain at ragor o doriadau i gyllidebau bydd angen rhagor o doriadau er mwyn mantoli'r gyllideb ac efallai hefyd y bydd angen cynnydd uwch yn nhreth y cyngor.

| Disgrifiad | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyllid ac Adnoddau** | 150 | | | |
| **Dyfodol Gweithredol SCCH** | | 557 | | |
| **Ystadau** | | 250 | | |
| **Y Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol** | 50 | | | |
| **Dyfodol Cyfathrebiadau** | 71 | | | |
| **Cydweithio ym maes Ymchwilio Fforensig** | 72 | | | |
| **Cydweithio ar Niche/RMS** | 510 | | | |
| **Caffael – darpariaeth feddygol** | 75 | | | |
| **PFI** | | 500 | | |
| **Cyfraddau Teithio Newydd** | 97 | | | |
| **1% o arbedion effeithlonrwydd o'r defnydd o Dechnoleg a mentrau Rheoli Adnoddau.** | | | 1,496 | 1,516 |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **1,214** | **1,307** | **1,496** | **1,516** |
| Cronnus | 1,214 | 2,521 | 4,017 | 5,533 |

## 7. Recriwtio

7.1 Yn 2016-17 roedd arian yn y gyllideb ar gyfer 1,398 o swyddi swyddog heddlu, gan gynnwys secondiadau. Yn ychwanegol roedd arian ar gyfer 4 derbyniad o 18 swyddog ar brawf wedi'i gynnwys yn y gyllideb. Gan fod swyddogion ar brawf yn symud i swyddi sefydledig ar ôl naw mis, mae hyn yn golygu bod 54 o swyddogion ar brawf mewn swyddi ar unrhyw un adeg. Nod y Cynllun Recriwtio yw y bydd swyddogion sydd wedi'u hyfforddi'n llawn yn cael eu lleoli mewn swyddi sefydledig wrth iddynt ddod yn wag. Bydd nifer y swyddi yn amrywio o ganlyniad i'r nifer o swyddi swyddog heddlu a ariennir drwy grant a swyddogion ar secondiad, yn ogystal ag effeithiau troi swyddi yn rhai staff neu unrhyw newidiadau eraill mewn swyddi swyddog heddlu. Bydd gwir nifer y swyddogion yn amrywio yn dibynnu ar nifer yr ymddeoliadau a swyddogion sy'n gadael am resymau eraill a'r proffil recriwtio. Mae wedi'i adnabod y bydd cynnydd yn nifer y swyddogion sy'n ymddeol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf o ganlyniad i newidiadau i Reoliadau Pensiynau'r Heddlu sy'n caniatáu i swyddogion ymddeol o 55 oed heb y gofyniad blaenorol i gwblhau 30 o flynyddoedd o wasanaeth.

7.2 Y nifer sylfaenol o recriwtiaid yw 4 derbyniad o 18 swyddog ar brawf, cyfanswm o 72. O ganlyniad i'r cynnydd mewn ymddeoliadau ac yn niferoedd swyddogion heddlu, bydd hyn yn codi i 126 yn 2017-18, gyda 36 swyddog ar brawf yn cael eu recriwtio i gychwyn ym mis Mehefin 2017, Medi 2017 a Ionawr 2018 ac 18 arall ym Mawrth 2018. Mae'r cyfanswm o 126 yn gyfwerth ag 84 swyddog ar brawf yn ystod y flwyddyn. Oherwydd yr ansicrwydd ariannol dros y blynyddoedd diwethaf roedd swyddogion ar brawf yn cael eu hariannu o arbedion trosiant gyda strategaeth o recriwtio'n gynnar, gyda chynllun wrth gefn i ddefnyddio'r gronfa wrth gefn Swyddogion ar Brawf pe bai angen. Mae'r ffigwr trosiant yn awr wedi'i amcangyfrif ar gyfer y blynyddoedd nesaf ac wedi'i gynnwys o fewn yn y gyllideb er mwyn ariannu swyddogion ar brawf wrth i ni fynd ymlaen. Bydd faint o swyddogion ar brawf ychwanegol sy'n angenrheidiol yn cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn ac unwaith y bydd yn bosibl mynd yn ôl at recriwtio sylfaenol bydd y 30 swyddog

ychwanegol yn cael eu defnyddio i lenwi dros swyddogion wedi'u tynnu o'u swyddi am wahanol resymau.

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y swyddi Swyddog Heddlu yn 2016-17 | | 1,398 |
| | | |
| Swyddogion ar Brawf WTE | | 54 |
| Cyfanswm | 2016-17 | 1,452 |
| | | |
| Nifer y swyddi Swyddog Heddlu yn 2017-18 | | 1,412 |
| Swyddogion ar Brawf WTE | | 84 |
| Cyfanswm | 2017-18 | 1,496 |

7.3 Mae llif cyson o SCCH yn cael eu recriwtio fel swyddogion heddlu. Mae nifer y swyddi SCCH wedi'i osod ar 220. Mae bwriad i recriwtio 24 SCCH yn 2017 ond bydd angen adolygu hyn yn ddibynnol ar faint o Swyddogion Cefnogi Cymuned sy'n cael eu penodi'n swyddogion heddlu.

7.4 Mae'r gwelliant yn y rhagolygon ariannu i'w groesawu ond bydd yn peri her i'r adran recriwtio, yn enwedig yng ngoleuni'r patrwm o swyddogion ychwanegol yn ymddeol. Bydd hefyd angen recriwtio i'r 24 swydd SCCH ychwanegol yn ogystal ag i unrhyw swyddi gwag sy'n codi. Bydd adnoddau byrdymor ychwanegol yn cael eu hariannu i gynorthwyo â'r broses recriwtio a hyfforddi.

## 8. Risgiau

8.1 Roedd lefel yr ansicrwydd o ran gosod cyllideb 2017-18 yn llai nag yn y blynyddoedd blaenorol, er na roddwyd unrhyw fanylion meintiol ynghylch setliad 2017-18 tan y cyhoeddiad ar 15 Rhagfyr 2016. Nid oes unrhyw ffigyrau grantiau ardaloedd plismona wedi'u cyhoeddi y tu hwnt i 2017-18. Mae risg o hyd y bydd toriadau i'r cyfanswm a ddyrennir i ardaloedd plismona mewn blynyddoedd i ddod, mae'r llywodraeth wedi tybio cynnydd yn nhreth y cyngor ac yn y sylfaen drethi er mwyn i ardaloedd plismona gynnal sefyllfa ariannol wastad.

8.2 Y risg mwyaf dros y flwyddyn nesaf yw'r fformiwla ariannu oherwydd y sensitifrwydd a'r ansicrwydd cysylltiedig â'r fformiwla newydd. Roedd y ffigyrau a gafwyd gan y Swyddfa Gartref yn ystod adolygiad 2015-16 yn dangos dyraniad Gogledd Cymru yn codi o 1.03% i 1.06% o'r cyfanswm - cyfwerth â £2m o nawdd ychwanegol; wedi hynny dangosodd amcangyfrifon a gafwyd gan Ddyfnaint a Chernyw ddyraniad Gogledd Cymru'n gostwng £14.5m, sy'n dangos sensitifrwydd unrhyw newidiadau. Mae'r adolygiad newydd o'r fformiwla ar y camau cynharaf - disgwylir y bydd rhai manylion yn cael eu cyhoeddi fis Chwefror 2017.

8.3 Mae risgiau newydd sy'n dod i'r amlwg ac yn datblygu yn genedlaethol ac yn lleol y mae'n rhaid buddsoddi adnoddau ynddynt, megis Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Throseddau Seiber, mae adnoddau ychwanegol wedi eu clustnodi ar gyfer 2016-17 ond mae'r rhain yn feysydd sy'n galw am lawer iawn o adnoddau a bydd angen eu hasesu ymhellach yn y dyfodol. Yn lleol bydd datblygiad y carchar yn Wrecsam a Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa B yn gofyn am adnoddau. Mae asiantaethau sector

cyhoeddus eraill yn gweld gostyngiad yn eu cyllidebau a gallai hynny arwain at gynnydd mewn galw ar wasanaeth yr Heddlu.

8.4 Mae'r cynlluniau ar gyfer arbedion yn 2016-17 wedi'u sefydlu ac yn cael eu rhoi ar waith; fodd bynnag mae'n rhaid gwireddu'r arbedion dichonol yn 2017-18. Mae'r cynlluniau hyn yn aeddfed a disgwylir y bydd yr arbedion hyn wedi'u cyflawni yn y flwyddyn. Mae angen cadarnhau a chyflawni toriadau y tu hwnt i 2017-18. Nid yw'r holl arbedion o fewn rheolaeth yr Heddlu, bydd arbedion o gydweithio'n ddibynnol ar heddluoedd a sefydliadau eraill.

8.5 Mae'r toriadau angenrheidiol a amcangyfrifir yn seiliedig ar y rhagdybiaeth gynllunio y bydd cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn cael ei gytuno. Pe bai hyn yn cael ei gwtogi, byddai pob gostyngiad o 1% yn golygu toriad ychwanegol o £0.688m yng nghyllideb 2017-18 .

8.6 Mae'r Swyddfa Gartref wedi brigdorri'r cyllid a roddwyd i ardaloedd plismona yn y blynyddoedd diweddar er mwyn ariannu unedau a mentrau cenedlaethol. Brigdorrwyd 42% yn fwy yn 2017-18. Gallai unrhyw fentrau newydd arwain at ragor o frigdorri.

8.7 Gellid gwneud rhagor o doriadau pe bai'r hinsawdd economaidd yn gwaethygu. Byddai pob gostyngiad ychwanegol o 1% yn y Grant Cyffredinol yn ostyngiad ariannol o £0.717m.

8.8 Oherwydd bod 80% o'r gyllideb net yn cael ei wario ar gyflogau gallai unrhyw newidiadau bychan megis cynnydd mewn cyflogau, cyfraniadau pensiwn neu yswiriant gwladol, yr ardoll prentisiaethau neu unrhyw wariant arall cysylltiedig â chyflogau gael effaith anghymesur ar y gyllideb.

8.9 Mae chwyddiant wedi bod yn isel yn y blynyddoedd diweddar a newidiwyd y rhagdybiaethau cyllidol er mwyn adlewyrchu hyn, fodd bynnag gallai hyn newid yn enwedig mewn meysydd megis tanwydd ac ynni le gall prisiau fod yn gyfnewidiol dros ben.

8.8 Mae'r tabl isod yn amlygu sensitifrwydd y prif ragdybiaethau:

| **Sensitifrwydd - y prif amrywiadau** | **£m** |
|---|---|
| 1% o newid yn Nhreth y Cyngor | 0.688 |
| 1% o newid mewn grant | 0.717 |
| 1% o newid mewn cyflogau | 1.100 |
| 1% o newid mewn chwyddiant cyffredinol | 0.362 |
| | |

**9. Cronfeydd wrth Gefn**

9.1 Mae ar y Comisiynydd ddyletswydd i sicrhau fod ganddo ddigon o gronfeydd wrth gefn i reoli risgiau. Yn ychwanegol at y risgiau ariannu a rhagamcanu a nodir uchod, mae'n rhaid i'r Comisiynydd ddarparu ar gyfer risg o ran gwariant (gwario dros y gyllideb) a digwyddiadau mawr costus, trychinebau naturiol a digwyddiadau eraill

nad oes modd eu rhagweld. Mae elfen o'r risg hwn wedi bod yn cael ei reoli drwy'r cyllidebau o fewn y flwyddyn - drwy'r cronfeydd argyfwng. Mae'r cronfeydd hyn wedi'u lleihau a chyfran fwy o'r risg hwnnw wedi'i drosglwyddo i'r Cronfeydd wrth Gefn.

9.2 Caiff y Cronfeydd Wrth Gefn eu hadolygu fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ac eto fel rhan o gynhyrchu'r Datganiad o Gyfrifon. O ganlyniad i newidiadau a wnaed i gyllideb Cyflogau'r Heddlu nid yw bellach yn angenrheidiol bod â Chronfa Swyddogion ar Brawf benodol, bydd y gronfa o £3.987m yn cael ei ailglustnodi i gronfeydd eraill fel a ganlyn:

| **Disgrifiad** | **£'000** | **Rheswm** |
|---|---|---|
| Cronfa Swyddogion ar Brawf | -3,974 | Ddim bellach yn angenrheidiol (Para 7.2) |
| Cronfa Gyffredinol | 1,000 | Ansicrwydd wedi cynyddu ac i ddod â'r balans o fewn y lefel ddarbodus |
| Cronfa Digwyddiadau Mawr | 0.200 | Cost gynyddol digwyddiadau mawr yn 2016-17 |
| Cronfa ymddeoliadau oherwydd salwch | 0.500 | Mae'r gyllideb yn darparu ar gyfer 6 ymddeoliad ar sail gwaeledd ond mae'r nifer wedi bod yn uwch na hyn yn y blynyddoedd diweddar |
| Rheoli Newid | 2,274 | Bydd gweithredu newidiadau yn y dyfodol yn gofyn am ariannu tymor byr. Bydd hyn yn cynnwys costau recriwtio a hyfforddi ychwanegol. |

9.2 Mae'r Gronfa Gyffredinol wedi'i chynyddu i £5.189m sydd yn 3.6% o gyllideb amcangyfrifedig net 2017-18. Ystyrir mai'r amrediad darbodus yw 3% - 5% o'r gyllideb net.

9.4 Bydd y defnydd o gronfeydd yn dibynnu ar y penderfyniad terfynol ar wariant cyfalaf a'r setliad refeniw terfynol, felly mae'r tabl isod yn dangos y cynllun presennol ar gyfer sut y gellir gwneud y defnydd gorau o gronfeydd wedi'u clustnodi i gefnogi darpariaeth gwasanaethau a lleihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw. Lle nad yw'r defnydd o'r Cronfeydd yn hysbys (e.e. y Gronfa Digwyddiadau Difrifol) ni ddangosir unrhyw newidiadau. Bydd y defnydd o gronfeydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd

Rhoddir manylion ynghylch sefyllfa ragamcanol y Cronfeydd Wrth Gefn ddiwedd bob blwyddyn yn y tabl isod

| **Sefyllfa'r Gronfa Wrth Gefn** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| ***Cronfeydd defnyddiadwy*** | **31.3.16** | **31.3.17** | **31.3.18** | **31.3.19** | **31.3.20** | **31.3.21** | **31.3.22** |
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Derbynebau Cyfalaf | 3.495 | 2.075 | 1.128 | 1.057 | 0.607 | 0.607 | 0.607 |
| Balans y Gronfa Gyffredinol | 4.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 |
| Arian wedi'i glustnodi o'r Gronfa Gyffredinol (Manylion isod) | 31.502 | 24.796 | 15.827 | 15.948 | 15.544 | 15.509 | 15.391 |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy** | **39.186** | **32.060** | **22.144** | **22.194** | **21.340** | **21.305** | **21.187** |

Rhoddir dadansoddiad o'r Cronfeydd Wedi'u Clustnodi amcangyfrifedig ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol isod gyda disgrifiad o bob un yn dilyn wedyn:

| **Disgrifiad** | **31.3.16** | **31.3.17** | **31.3.18** | **31.3.19** | **31.3.20** | **31.3.21** | **31.3.22** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Buddsoddi Cyfalaf** | 14.845 | 8.288 | 0.513 | 0.513 | 0.065 | 0.065 | 0.065 |
| **Digwyddiadau Difrifol** | 2.235 | 2.435 | 2.197 | 2.197 | 2.197 | 2.197 | 2.197 |
| **Cronfa Bensiynau Ymddeoliad ar Sail Gwaeledd** | 0.415 | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 |
| **Cronfa Yswiriant** | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 |
| **Cronfa PFI** | 3.692 | 3.987 | 4.212 | 4.333 | 4.377 | 4.342 | 4.224 |
| **Cronfa Swyddogion ar Brawf** | 3.974 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| **Diogelwch a Chynnal a Chadw'r Ystâd** | 1.938 | 1.620 | 1.301 | 1.301 | 1.301 | 1.301 | 1.301 |
| **Rheoli Newid** | 2.027 | 5.383 | 4.521 | 4.521 | 4.521 | 4.521 | 4.521 |
| **Cronfa Partneriaethau** | 0.588 | 0.380 | 0.380 | 0.380 | 0.380 | 0.380 | 0.380 |
| **Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd** | 0.280 | 0.280 | 0.280 | 0.280 | 0.280 | 0.280 | 0.280 |
| **Cyllidebau Swyddfa'r CHTh/ Cyfreithiol/Cyfranogol** | 0.335 | 0.335 | 0.335 | 0.335 | 0.335 | 0.335 | 0.335 |
| **Cyfanswm** | **31.502** | **24.796** | **15.827** | **15.948** | **15.544** | **15.509** | **15.391** |

**9.5** **Cronfa Buddsoddi Cyfalaf (Cyfalaf) –** i'w defnyddio i fuddsoddi yn asedau a seilwaith yr Heddlu er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth a lleihau gwariant refeniw.

**Cronfa Digwyddiadau Difrifol (Risg)–** i'w defnyddio pe bai digwyddiad difrifol sy'n galw am adnoddau ychwanegol nad ydynt ar gael o fewn y gyllideb flynyddol. Mae'r gronfa hon wedi galluogi lleihau'r gyllideb argyfwng ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau difrifol

**Cronfa Bensiynau Ymddeoliad ar Sail Gwaeledd (Risg) -** Mae'n rhaid i'r heddlu dalu swm unwaith yn unig werth ddwywaith cyflog swyddog am bob ymddeoliad ar sail gwaeledd. Mae dal y gronfa hon wedi lleihau'r angen am y gyllideb o fewn refeniw

**Yswiriant (Risg)-** mae hyn yn ymwneud â chynllun trefniant Municipal Mutual Insurance Limited a allai arwain at daliad terfynol amcangyfrifedig o £0.432m am

hawliadau anhysbys sy'n codi, a hawliadau anhysbys yn y dyfodol a amlygir gan y Brocer yswiriant.

**Cronfa PFI (Refeniw Wedi'i Glustnodi) –** Mae angen y gronfa hon gan fod yr arian ar gyfer PFI gan y Llywodraeth yn lleihau bob blwyddyn - bydd y gronfa'n gostwng yn raddol dros gyfnod y contract PFI.

**Cronfa Wrth Gefn Swyddogion ar Brawf (Refeniw Wedi'i Glustnodi) –** yn cael ei defnyddio i ariannu swyddogion ar brawf ychwanegol er mwyn llenwi swyddi gyda swyddogion wedi'u hyfforddi. Ddim bellach yn angenrheidiol yn unol â pharagraff 7.2.

**Diogelu a Chynnal a Chadw Ystadau (Refeniw Wedi'i Glustnodi)** – i ariannu ôl groniad o waith cynnal a chadw a chamau diogelu ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cyllidebau refeniw na chyfalaf.

**Rheoli Newid (Refeniw Wedi'i Glustnodi) –** buddsoddiad angenrheidiol er mwyn hwyluso newid a lleihau costau yn y tymor hirach.

**Cronfa Partneriaethau (Refeniw Wedi'i Glustnodi) –** balansau ar gyfer partneriaethau penodol a fydd naill ai'n cael eu defnyddio neu eu cadw rhag ofn i gyllid gael ei dynnu'n ôl gan arwain at gostau ychwanegol.

**Cronfa Diogelwch Cymunedol (Refeniw Wedi'i Glustnodi) –** i ddarparu rhagor o adnoddau ar gyfer y Gronfa Diogelwch Cymunedol.

**Cronfeydd Swyddfa'r CHTH (Refeniw Wedi'i Glustnodi) –** cronfa'r CHTh, cronfa gyfreithiol a'r gyllideb gyfranogol.

## 10. Cyfalaf

10.1 Mae sawl prosiect mawr o fewn y Rhaglen Gyfalaf yr arwyddwyd y cytundebau ar eu cyfer gyda'r gwaith wedi cychwyn yn 2016-17 ac yn parhau yn 2017-18. Mae proffil y rhaglen wedi'i adolygu i adlewyrchu'r llif arian a ragwelir ar gyfer y prosiectau hyn, sef y pencadlys rhanbarthol a'r ddalfa newydd yn Llai, gorsaf canol tref Wrecsam, yr orsaf heddlu newydd yn Llandudno, technoleg newydd yn yr ystafell reoli a datblygiadau ym maes data symudol.

10.2 Hefyd mae prosiectau llai ar yr ystâd i'w cwblhau yn ogystal ag uwchraddio systemau busnes a'r rhaglen flynyddol o newid cerbydau.

10.3 Mae'r rhaglen yn fforddiadwy a chaiff ei hariannu o gyfuniad o grantiau, cronfeydd, cyfraniadau refeniw uniongyrchol a benthyca. Y strategaeth gyffredinol yw benthyg cyn lleied â phosibl a gwneud y mwyaf o'r symiau y cyllidwyd ar eu cyfer mewn

refeniw drwy ddefnyddio cyfraniadau refeniw uniongyrchol a derbynebau cyfalaf a fydd yn ei dro yn lleihau taliadau llog.

10.4 Mae'r ffigyrau cyfalaf i'w gweld yn Atodiad C; bydd y cynllun manwl yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol fel rhan o'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Cod Ariannol.

10.5 **Rhaglen Gyfalaf 2016-17 hyd 2021-22**

| **Gwariant** | **£m** |
|---|---|
| Ystadau | 24.061 |
| Cerbydau ac Offer | 8.864 |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebiadau | 9.746 |
| Cyfanswm | 42.671 |
| | |
| **Cyllid** | |
| Grantiau | 3.116 |
| Cyfraniad Refeniw | 8.351 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 14.780 |
| Derbynebau Cyfalaf | 6.183 |
| Benthyca - Ystadau | 4.957 |
| Benthyca – Rhaglen Adnewyddu TG | 5.284 |
| Cyfanswm | 42.671 |

## 11 Crynodeb

**11.1** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi cynlluniau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer y cyllidebau refeniw a chyfalaf a'r defnydd o gronfeydd dros y 5 mlynedd nesaf. Disgwylir y bydd rhagor o doriadau mewn grantiau ond y bydd y toriadau mae'n debyg yn llai nag ar ddechrau'r Rhaglen y Gyni Cyllidol. Mae'r rhain yn dod ar ôl cyfnod o bedair blynedd lle gwnaed arbedion o £26.9m mewn cyllidebau. Mae'r galw sy'n dod i'r amlwg ym maes troseddau seiber a cham-fanteisio'n rhywiol ar bobl ddiamddiffyn yn gofyn am lawer iawn o adnoddau o ran atal ac ymchwilio ond maent yn feysydd y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt. Bydd y pedair blynedd nesaf yn heriol dros ben yn ariannol ac yn gofyn am gydbwysedd rhwng blaenoriaethu galw, arbedion, buddsoddiad mewn rhai meysydd a chynnydd rhesymol yn Nhreth y Cyngor.

**Atodiad A**

## Y Strategaeth Ariannol

**Amcanion y Strategaeth Ariannol:**

- Blaenoriaethu adnoddau er mwyn alinio cynlluniau gwariant gyda gweledigaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac amcanion strategol y Prif Gwnstabl fel y'u hamlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.
- Cynnal sefyllfa cyllideb fantoledig a gosod cynllun ariannol tymor canolig sy'n cefnogi'r gwasanaeth drwy'r cyfnod o gyllid gostyngol
- Darparu gwerth am arian ar gyfer trethdalwyr lleol
- Arfer cywirdeb, darbodaeth a rheolaeth ariannol gref
- Darparu fframwaith cadarn a fydd yn cynorthwyo gyda'r broses o wneud penderfyniadau
- Rheoli risg, gan gynnwys cynnal cronfeydd wrth gefn ar lefelau addas ar yr un pryd a sicrhau lefel gynaliadwy o ddyled
- Adolygu cyllidebau yn gyson er mwyn sicrhau bod adnoddau wedi'u targedu at amcanon allweddol

Sicrhau y cyflawnir yr amcanion cynllunio strategol yn y meysydd canlynol:

**Cynllunio Corfforaethol a Busnes**

- Integreiddio cynllunio gweithredol ac ariannol er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd sy'n cefnogi'r blaenoriaethau sydd wedi'u gosod yn y Cynllun Strategol a chydweddu adnoddau ag amcanion corfforaethol
- Cynhyrchu cynllun ariannol ar gyfer y 3-5 mlynedd nesaf a fydd yn cynnwys prosiectau cyfalaf a refeniw mwyaf yr Heddlu a'r strategaethau TG a'r Ystâd a darparu cyllid cynaliadwy yn y byrdymor a'r tymor canolig.
- Cynhyrchu cyllideb refeniw a chyfalaf flynyddol sy'n cefnogi'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau.

**Rheoli Risg – Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau**

- Cynnal adnoddau a darpariaethau digonol er mwyn sicrhau fod y rhaglen bolisi tymor canolig yn gynaliadwy ac y gellir ei gwireddu
- Y nod yw mantoli'r gyllideb refeniw dros y tymor canolig heb ddibynnu ar y defnydd o'r Gronfa Gyffredinol
- Cynnal tair lefel o wytnwch drwy ddefnyddio cronfeydd a darpariaethau:

    1. Rheolaeth Flynyddol y Gyllideb
    2. Cronfeydd Wedi'u Clustnodi gan gynnwys y Gronfa Digwyddiadau Difrifol
    3. Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol o rhwng 3% a 5% o wariant refeniw net

**Rheolaeth Risg - Fframwaith Rheolaeth Ariannol**

- Cynnal fframwaith o reolaeth ariannol sy'n allweddol o ran cynnal safonau effeithiol o weinyddiaeth a stiwardiaeth ariannol. Bydd hyn yn cael ei wireddu drwy

  Gadw at Reolau a Rheoliadau Statudol
  Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref
  Cod Llywodraethu Corfforaethol
  Nodiadau Polisïau a Gweithdrefnau
  Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog
  Polisi Rheoli'r Trysorlys a chadw at y Cod Ariannol
  Gweithredu argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol
  Rheoli Risg
  Codau Ymddygiad Proffesiynol

- Cynnal a datblygu systemau ariannol digonol er mwyn cofnodi a rheoli adnoddau a symud tuag at brosesu electronig llawn

- Alinio cyfrifoldeb ariannol ar lefel weithredol â'r rheolaeth neu'r dylanwad rheoli priodol

- Sicrhau bod gwybodaeth ariannol gywir, gyfredol ar gael er mwyn galluogi defnyddwyr i'w rhoi ar waith yn effeithiol wrth wneud penderfyniadau.

**Atodiad B**

## Cyllideb Refeniw 2016-17 hyd 2021-22

| | | Cyllideb Flynyddol | + Cyndd -Gstngd | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Flynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2016-17** | **2017-18** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** |
| | **Gwariant** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| | | | | | | | | |
| **1** | **Cyflogau Swyddogion Heddlu** | 72,736 | 1,372 | 74,108 | 74,930 | 76,126 | 76,837 | 77,682 |
| **2.1** | **Cyflogau Staff** | 33,941 | 587 | 34,528 | 34,876 | 35,228 | 35,584 | 35,943 |
| **2.2** | **SCCH** | 7,290 | -483 | 6,807 | 6,875 | 6,944 | 7,013 | 7,083 |
| **3** | **Goramser Swyddogion Heddlu** | 1,839 | 150 | 1,989 | 1,989 | 1,989 | 1,989 | 1,989 |
| **4** | **Goramser Staff** | 400 | 0 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| **5** | **Lwfansau** | 1,867 | -84 | 1,783 | 1,743 | 1,721 | 1,701 | 1,682 |
| **6** | **Hyfforddiant** | 665 | 13 | 678 | 692 | 706 | 720 | 734 |
| **7** | **Staff eraill** | 678 | 16 | 694 | 708 | 722 | 736 | 751 |
| **8** | **Taliadau Pensiwn Uniongyrchol** | 3,102 | 62 | 3,164 | 3,227 | 3,292 | 3,358 | 3,425 |
| **9** | **Costau Ynni** | 1,349 | -233 | 1,116 | 1,149 | 1,184 | 1,219 | 1,256 |
| **10** | **Costau Rhedeg Adeiladau** | 6,260 | 342 | 6,602 | 6,734 | 6,869 | 7,007 | 7,147 |
| **11** | **Trwsio a Chynnal a Chadw Cerbydau** | 865 | -253 | 612 | 624 | 636 | 649 | 662 |
| **12** | **Costau Rhedeg Cerbydau** | 1,995 | -155 | 1,840 | 1,909 | 1,982 | 2,057 | 2,136 |
| **13** | **Lwfansau Ceir a Theithio** | 728 | 15 | 743 | 661 | 676 | 691 | 707 |
| **14** | **Uned Cefnogaeth o’r Awyr** | 1,235 | -196 | 1,039 | 1,039 | 1,039 | 1,039 | 1,039 |
| **15** | **Offer** | 654 | 122 | 776 | 791 | 806 | 822 | 808 |
| **16** | **Dillad a Lifrai** | 465 | 9 | 474 | 484 | 494 | 504 | 514 |
| **17** | **Argraffu a Deunydd Swyddfa** | 413 | 9 | 422 | 430 | 439 | 447 | 456 |
| **18** | **TG a Chyfathrebiadau** | 10,123 | -400 | 9,723 | 9,778 | 9,896 | 10,101 | 10,311 |
| **19** | **Cynhaliaeth** | 284 | 41 | 325 | 330 | 336 | 342 | 348 |
| **20** | **Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill** | 6,654 | 265 | 6,919 | 7,023 | 7,131 | 7,242 | 7,357 |
| **21** | **Ymchwilio Fforensig** | 955 | 146 | 1,101 | 1,120 | 1,140 | 1,161 | 1,181 |
| **22** | **Cost dyledion a Chyfraniad i Gyfalaf** | 1,504 | 360 | 1,864 | 1,864 | 1,864 | 1,864 | 1,861 |
| **23** | **Cronfa Argyfwng Sefyllfaoedd Arbennig** | 400 | 0 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| **24** | **Chwyddiant a chronfa argyfwng gyffredinol** | 400 | 0 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| **25** | **Cronfa Diogelwch Cymunedol** | 1,166 | 0 | 1,166 | 1,166 | 1,166 | 1,166 | 1,166 |
| | | | | | | | | |
| | **Gwariant Gros** | **157,968** | **1,705** | **159,673** | **161,342** | **163,586** | **165,449** | **167,438** |

| | | Cyllideb Flynyddol | +'Cynnydd -' Gstngd | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Flynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2016-17** | **2017-18** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** |
| | **Incwm** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| | | | | | | | | |
| **26** | **Secondiadau** | -4,161 | 114 | -4,047 | -4,047 | -4,047 | -4,047 | -4,047 |
| **27** | **Llog ar Falansau** | -271 | 75 | -196 | -150 | -150 | -150 | -150 |
| **28** | **Incwm** | -2,552 | 85 | -2,467 | -2,467 | -2,467 | -2,467 | -2,467 |
| **29** | **Grantiau Penodol** | -10,004 | 33 | -9,971 | -9,918 | -9,866 | -9,813 | -9,813 |
| | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Incwm** | **-16,988** | **307** | **-16,681** | **-16,582** | **-16,530** | **-16,477** | **-16,477** |
| | | | | | | | | |
| **30** | **Cronfa PFI** | 295 | -70 | 225 | 121 | 44 | -35 | -118 |
| **31** | **Cronfa Ymwybyddiaeth Cyflymder** | -208 | 208 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **32** | **Ychwanegol o Gronfeydd Wrth Gefn** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | | |
| | **Gwariant Net** | **141,067** | **2,150** | **143,217** | **144,881** | **147,100** | **148,937** | **150,843** |
| | | | | | | | | |
| **33** | Cyfanswm Grantiau | -72,745 | 1,017 | -71,728 | -71,011 | -70,301 | -69,598 | -68,902 |
| **34** | Praesept | -68,322 | -3,167 | -71,489 | -73,460 | -75,484 | -77,565 | -79,703 |
| | | | | | | | | |
| | **Cyllid** | **-141,067** | **-2,150** | **-143,217** | **-144,471** | **-145,785** | **-147,163** | **-148,605** |
| | | | | | | | | |
| | Balans Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 410 | 905 | 459 | 464 |
| | Cronnus | | | 0 | 410 | 1,315 | 1,774 | 2,238 |

Atodiad C

## Rhaglen Gyfalaf 2016-17 to 2021-22

| | | 2013-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2016-22 | 2013-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | 6 Blynedd | |
| **Cyf** | **Disgrifiad** | **Rhagamc.** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Rhagamc** |
| | | **Gwir** | **Jan-17** | **Jan-17** | **Jan-17** | **Jan-17** | **Jan-17** | **Jan-17** | **Jan-17** | **Cyfanswm** |
| | | | | | | | | | | **Diwygiedig** |
| | | | | | | | | | | **Ion-17** |
| | | | | | | | | | | |
| | | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| | | | | | | | | | | |
| | **Rhaglen Ystadau** | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| 1 | Dargadwadau | 0 | 10 | 5 | 5 | 5 | 0 | 0 | 25 | 25 |
| 2 | Gwelliannau Cynaladwyedd | 499 | 29 | 100 | 100 | 100 | 0 | 0 | 329 | 828 |
| 3 | Swyddfeydd Porthaethwy | 0 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100 | 100 |
| 4 | Pencadlys Rhanbarthol a Dalfa Newydd Wrecsam | 2,894 | 3,890 | 11,639 | 2,727 | 0 | 0 | 0 | 18,256 | 21,150 |
| 5 | Gorsaf Canol Tref Newydd Wrecsam | 63 | 300 | 1,438 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,738 | 1,801 |
| 6 | Saltney | 0 | 50 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50 | 50 |
| 7 | Bwcle | 0 | 55 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 55 | 55 |
| 8 | Y Fflint | 388 | 32 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 32 | 420 |
| 9 | Ailwampio Llangollen | 339 | 16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 16 | 355 |
| 10 | Gorsaf Newydd Llandudno | 450 | 1,576 | 724 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,300 | 2,750 |
| 11 | Conwy | 0 | 175 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 175 | 175 |
| 12 | Adleoli  Gorsaf Tywyn | 113 | 27 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 27 | 140 |
| 13 | Porthladd Caergybi | 172 | 48 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 48 | 220 |
| 14 | Cyfleusterau Hyfforddi'r Ganolfan Drylliau Tanio | 278 | 34 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 34 | 312 |
| 15 | Cantîn (amodol ar Gynllun Busnes) | 0 | 0 | 134 | 0 | 0 | 0 | 0 | 134 | 134 |
| 16 | Gwaith adeiladu SARC Tîm Amethyst | 97 | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 13 | 110 |
| 17 | Adleoli'r Uned Iechyd Galwedigaethol | 0 | 228 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 228 | 228 |
| 18 | Cyfleuster Archifo | 0 | 45 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 45 | 45 |
| 19 | Adolygiad o'r Ystâd 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 434 | 22 | 456 | 456 |
| | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Gwaith Adeiladu** | **5,293** | **6,628** | **14,040** | **2,832** | **105** | **434** | **22** | **24,061** | **29,354** |

| | | 2013-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2016-22 | 2013-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | 6 Bl | |
| **Cyf** | **Disgrifiad** | **Rhagamc.** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Rhagamc** |
| | | **Gwir** | **Jan-17** | **Jan-17** | **Jan-17** | **Jan-17** | **Jan-17** | **Jan-17** | **Jan-17** | **Cyfanswm** |
| | | | | | | | | | | **Diwygiedig** |
| | | | | | | | | | | **Ion-17** |
| | | | | | | | | | | |
| | | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| | **Cerbydau a Chyfarpar Arall** | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| 20 | Rhaglen Adnewyddu Cerbydau | 5,004 | 1,445 | 1,552 | 1,573 | 1,300 | 1,300 | 1,300 | 8,470 | 13,474 |
| 21 | Offer CCTV ac ANPR y Porthladdoedd | 41 | 188 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 188 | 229 |
| 22 | Offer fideo a wisgir ar y corff | 0 | 206 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 206 | 206 |
| | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Cerbydau a chyfarpar arall** | **5,045** | **1,839** | **1,552** | **1,573** | **1,300** | **1,300** | **1,300** | **8,864** | **13,909** |
| | | | | | | | | | | |
| | **Technoleg gwybodaeth ac Offer Cyfathrebiadau** | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| 23 | Adnewyddu Offer Pen Desg (Rhaglen Adnewyddu) | 651 | 300 | 300 | 300 | 300 | 300 | 300 | 1,800 | 2,451 |
| 24 | Gosod Rhwydwaith (Rhaglen Adnewyddu) | 673 | 877 | 0 | 0 | 0 | 0 | 800 | 1,677 | 2,350 |
| 25 | Offer newydd yn yr Ystafell Reoli | 0 | 553 | 1,336 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,889 | 1,889 |
| 26 | Gweinydd Newydd | 0 | 700 | 0 | 0 | 0 | 0 | 700 | 1,400 | 1,400 |
| 27 | Uwchraddio RMS (Rhaglen Adnewyddu) | 443 | 0 | 450 | 0 | 0 | 0 | | 450 | 893 |
| 28 | Systemau Busnes (Rhaglen Adnewyddu) | 31 | 145 | 0 | 0 | 0 | 0 | 145 | 290 | 321 |
| 29 | Prosiect Digidol Cyfiawnder Troseddol | 446 | 145 | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 395 | 841 |
| 30 | Prosiect Data Symudol | 70 | 367 | 363 | 0 | 0 | 0 | 0 | 730 | 800 |
| 31 | Adnewyddu Airwave /ESN | 62 | 0 | 0 | 0 | 1,000 | 0 | 0 | 1,000 | 1,062 |
| 32 | IT Carchar Wrecsam a Chysylltu | 0 | 115 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 115 | 115 |
| | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Technoleg gwybodaeth ac Offer Cyfathrebiadau** | **2,376** | **3,202** | **2,699** | **300** | **1,300** | **300** | **1,945** | **9,746** | **12,122** |
| | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **12,714** | **11,669** | **18,291** | **4,705** | **2,705** | **2,034** | **3,267** | **42,671** | **55,385** |
| | | | | | | | | | | |
| | **Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf** | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| 33 | Grantiau Capita Cyffredinol y SG | | 541 | 727 | 462 | 462 | 462 | 462 | 3,116 | |
| 34 | Cyfraniad Refeniw | | 2,012 | 1,329 | 1,212 | 1,243 | 1,272 | 1,283 | 8,351 | |
| 35 | Cronfeydd wedi'u Clustnodi | | 6,727 | 7,605 | 0 | 448 | 0 | 0 | 14,780 | |
| 36 | Derbynebau Cyfalaf | | 0 | 5,423 | 231 | 252 | 0 | 277 | 6,183 | |
| 37 | Benthyg ar gyfer Ystadau | | 0 | 2,457 | 2,500 | 0 | 0 | 0 | 4,957 | |
| 38 | Benthyg ar gyfer Rhaglenni Adnewyddu | | 2,389 | 750 | 300 | 300 | 300 | 1,245 | 5,284 | |
| | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Cyllid** | | **11,669** | **18,291** | **4,705** | **2,705** | **2,034** | **3,267** | **42,671** | |

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 23 Ionawr 2017 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Richard Jarvis (Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Dawn Hughes (Swyddog Cefnogi) |
| **TESTUN:** | Cymdeithas Genedlaethol Paneli yr Heddlu a Throsedd |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Ceisio barn y Panel ar y posibilrwydd o sefydlu Cymdeithas Genedlaethol Paneli yr Heddlu a Throsedd (PHT).

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Yn y bumed gynhadledd genedlaethol ar gyfer paneli Heddlu a Throsedd a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2016, cafwyd trafodaethau ar y posibilrwydd am gymdeithas PHT.

2.2 Yn seiliedig ar waith Frontline Consulting hyd yma gyda PHT yng Nghymru a Lloegr trwy ei gynadleddau, rhwydweithiau rhanbarthol, gweithgarwch dysgu a datblygu a gwaith cyflwyno, byddai Frontline Consulting yn fodlon cynorthwyo gyda datblygu cymdeithas trwy hwyluso cyfarfod archwiliadol.

2.3 Mae dyddiad dros dro wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod archwiliadol yn Llundain ar 17 Chwefror 2017.

## 3. ARGYMHELLIAD/ ARGYMHELLION/ DEWISIADAU

3.1 Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cefnogi sefydlu Cymdeithas Genedlaethol o Baneli yr Heddlu a Throsedd.

3.2 Bod cadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Swyddog Arweiniol neu'r Swyddog Cefnogi yn mynychu'r cyfarfod archwiliadol ar 27 Chwefror 2017.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Yn y bumed gynhadledd genedlaethol ar gyfer paneli Heddlu a Throsedd a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2016, cafwyd trafodaethau ar y posibilrwydd am gymdeithas PHT.

4.2 Mae gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd (CHT) a Phrif Weithredwyr Swyddfeydd CHT gymdeithasau cenedlaethol, fodd bynnag, nid yw hyn yn wir ar gyfer PHT.

4.3 Mae PHT wedi cael trafferth lleisio'u barn yn eu trafodaethau gyda'r swyddfa Gartref, yn enwedig mewn perthynas â'u diffyg eglurder ynghylch y rôl a diffyg unrhyw bwerau go iawn i allu dwyn CHT i gyfrif.

4.3 Byddai nifer o fuddion yn ymddangos i ddod o gael cymdeithas genedlaethol:

- bod â llais cydnabyddedig i gynrychioli barn ar lefel genedlaethol;
- darparu cefnogaeth a datblygiad;
- gallu darparu gwell arweinyddiaeth genedlaethol a dylanwadu newid;
- ymgynghori ag aelodau i ddatblygu barn gyson;
- dosbarthu arfer gorau, sicrhau cysondeb a nodi effeithlonrwydd wrth gydweithio;
- cymryd camau cydlynol a all helpu i gael gwared ar rwystrau ar lefel genedlaethol;
- darparu fforwm ar gyfer trafod;
- cynrychioli a hyrwyddo buddiannau'r panel i randdeiliaid a phartneriaid allweddol;
- cynyddu gwelededd a statws y paneli;
- darparu cymorth a chanllawiau; a
- galluogi paneli i baratoi ar gyfer newid.

## 5. YMGYNGHORI

5.1 Mae ymgynghoriad wedi cael ei gynnal gyda'r Aelodau Panel, sydd yn gefnogol o gyflwyno adroddiad ffurfiol i'r PHT i'w ystyried.

## 6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

6.1 Dim ar hyn o bryd. Gallai cymryd rhan mewn cymdeithas PHT nodi effeithlonrwydd trwy gydweithio.

## 7. RISG

7.1 Mae'r manteision o gymryd rhan mewn cymdeithas o PHT yn gorbwyso unrhyw risgiau (os oes rhai o gwbl) gan y byddai PHT Gogledd Cymru yn gallu cynorthwyo gyda datblygu barn gyson a dylanwadu newid ar lefel leol.

## 8. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

8.1 Canfod a fyddai PHT Gogledd Cymru yn elwa o fod yn gysylltiedig â chymdeithas PHT.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 23 Ionawr 2017 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Richard Jarvis (Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Dawn Hughes (Swyddog Cefnogi) |
| **TESTUN:** | Cynllun Lwfans |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Ystyried a ddylid cynyddu'r cap ar yr uchafswm diwrnodau llawn y gellir ei hawlio gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PHT).

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Cymeradwyodd y PHT Gynllun Lwfans ar 4 Mehefin 2013, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau i aelodau'r panel fel a ganlyn:

- Gwneir taliadau drwy ffi ddyddiol o £198 (£99 am hanner diwrnod), sydd ag uchafswm sy'n gyfwerth â 5 diwrnod llawn y flwyddyn.
- Mae gan Aelodau'r Panel Heddlu a Throsedd yr hawl i hawlio lwfansau teithio ar gyfer dyletswyddau a gymeradwywyd.

2.2 Oherwydd yr angen i gynnal cyfarfodydd ychwanegol, megis gwrandawiadau cadarnhau a digwyddiadau hyfforddi, daeth yn amlwg mewn rhai achosion bod Aelodau'r Panel wedi methu hawlio am ddyletswyddau cymeradwy, gan eu bod wedi mynd dros y cap uchafswm o 5 diwrnod llawn y flwyddyn.

**3. ARGYMHELLIAD/ ARGYMHELLION/ DEWISIADAU**

3.1 Bod Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru'n ystyried a ddylid cynyddu'r cap ar y Cynllun Lwfansau, sydd wedi'i osod ar hyn o bryd ar uchafswm i'r hyn sy'n cyfateb i 5 diwrnod y flwyddyn am ddyletswyddau cymeradwy i 7 diwrnod llawn.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Cymeradwyodd y PHT Gynllun Lwfans ar 4 Mehefin 2013, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau i aelodau'r panel fel a ganlyn:

- Gwneir taliadau drwy ffi ddyddiol o £198 (£99 am hanner diwrnod), sydd ag uchafswm sy'n gyfwerth â 5 diwrnod llawn y flwyddyn.
- Mae gan Aelodau'r Panel Heddlu a Throsedd yr hawl i hawlio lwfansau teithio ar gyfer dyletswyddau a gymeradwywyd.

4.2 Tra bo'r mwyafrif o hawliadau a gyflwynir gan Aelodau'r Panel yn llai na'r cap cyfredol o 5 diwrnod llawn mewn blynyddoedd diweddar, oherwydd yr angen i gynnal cyfarfodydd ychwanegol, megis gwrandawiadau cadarnhau a digwyddiadau hyfforddi, bu adegau pan fo Aelodau'r Panel wedi mynd dros y cap ac felly heb gael eu talu am ddyletswyddau cymeradwy.

4.3 Er nad oedd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol unrhyw awdurdodaeth dros y Panel Heddlu a Throsedd, roedd y Cynllun Lwfans PHT Gogledd Cymru yn seiliedig ar ei daliadau i Aelodau cyfetholedig.

4.4 Er mwyn caniatáu craffu cyhoeddus o wariant y PHT, mae gofyniad tryloywder wedi cael ei roi fel amod ar y taliad grant sengl, ac felly byddai angen i'r PHT fel isafswm gyhoeddi manylion ei holl wariant, gan gynnwys gwariant Aelodau ar sail flynyddol.

## 5. YMGYNGHORI

5.1 Mae ymgynghoriad wedi cael ei gynnal gyda'r Aelodau Panel, sydd wedi gofyn am gyflwyno adroddiad ffurfiol i'r PHT i'w ystyried.

## 6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

6.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid i'r Awdurdod Lleol lletyol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd, sy'n cynnwys darpariaeth i dalu lwfansau i aelodau PHT.

## 7. RISG

7.1 Os caiff y cap ei gynyddu, byddai Aelodau'r PHT yn parhau i ddarparu tystiolaeth o bresenoldeb mewn cyfarfodydd/ digwyddiadau hyfforddi er mwyn sicrhau bod y dyletswyddau cymeradwy wedi cael eu gwneud yn unol â'r Cynllun Lwfansau a byddai Swyddogion yn parhau i fonitro hawliadau i sicrhau nad ydynt yn uwch na'r Grant Swyddfa Gartref.

## 8. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

8.1 Ceisio barn y PHT ynghylch a ddylid cynyddu'r cap ar y Cynllun Lwfansau ar gyfer PHT Gogledd Cymru er mwyn caniatáu Aelodau i hawlio am fynychu cyfarfodydd/ digwyddiadau hyfforddi a oedd yn uwch na'r cap uchafswm sy'n cyfateb i 5 diwrnod llawn y flwyddyn.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag